



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion  
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 10 Mawrth 2010  
Wednesday, 10 March 2010**

## **Cynnwys** **Contents**

- 3 Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro  
Election of Temporary Deputy Presiding Officer
- 3 Talu Teyrnged i Michael Foot  
Obituary Tributes to Michael Foot
- 8 Cwestiynau i'r Prif Weinidog  
Questions to the First Minister
- 38 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol  
Questions to the Minister for Social Justice and Local Government
- 59 Dadl Cyfnod 3 Rheol Sefydlog Rhif 23.57 ar y Mesur Arfaethedig ynghylch y Diwydiant  
Cig Coch (Cymru)  
Stage 3 Standing Order No. 23.57 Debate on the Proposed Red Meat Industry (Wales)  
Measure
- 59 Datganiadau Niferoedd ac Amcangyfrifon (Gwelliannau 2, 3, 4 a 5)  
Returns and Estimates (Amendments 2, 3, 4 and 5)
- 66 Offerynnau Statudol a wneir o dan Adrannau 3(3), 5(4) a 6(3) (Gwelliant 1)  
Statutory Instruments made under Sections 3(3), 5(4) and 6(3) (Amendment 1)
- 70 Dadl Cyfnod 4 Rheol Sefydlog Rhif 23.58 i Gymeradwyo'r Mesur Arfaethedig ynghylch y  
Diwydiant Cig Coch (Cymru)  
Stage 4 Standing Order No. 23.58 Motion to Approve the Proposed Red Meat Industry  
(Wales) Measure
- 71 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol  
Questions to the Counsel General

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.  
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Trefn yn y Cynulliad.

**The Presiding Officer:** Order in the Assembly.

### **Ethol Dirprwy Lywydd Dros Dro Election of Temporary Deputy Presiding Officer**

**Y Llywydd:** Yn absenoldeb y Dirprwy Lywydd—yr ydym yn parhau i anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan iddi—gofynnaf i'r Cynulliad i ethol Dirprwy Lywydd dros dro ar gyfer Cyfarfod Llawn heddiw.

**The Presiding Officer:** In the absence of the Deputy Presiding Officer—we continue to send her our best regards for a speedy recovery—I ask the Assembly to elect a temporary Deputy Presiding Officer for the duration of today's Plenary meeting.

**William Graham:** I nominate Peter Black.

**William Graham:** Enwebaf Peter Black.

**The Presiding Officer:** Thank you. I therefore declare Peter Black elected as temporary Deputy Presiding Officer.

**Y Llywydd:** Diolch. Felly, cyhoeddaf fod Peter Black wedi'i ethol yn Ddirprwy Lywydd dros dro.

### **Talu Teyrnged i Michael Foot Obituary Tributes to Michael Foot**

**Y Llywydd:** Dechreuwn ein Cyfarfod Llawn heddiw gyda theyrngedau i un o Aelodau Seneddol mwyaf hirhoedlog Cymru o ran ei fywyd ac o ran ei dymor o gynrychioli, sef cyn arweinydd y Blaid Lafur, Michael Foot.

**The Presiding Officer:** We will start our Plenary meeting with tributes to one of Wales's longest serving Members of Parliament in terms of his lifespan and his office, namely the former leader of the Labour Party, Michael Foot.

I call on Huw Lewis to lead tributes from the Labour group.

Galwaf ar Huw Lewis i arwain y teyrngedau gan y grŵp Llafur.

**Huw Lewis:** The recent loss of Michael Foot at the age of 96 has sent waves of affection and sorrow flowing throughout the UK and further afield. His loss has been keenly felt here in Wales. Shortly before his death in 1960, Aneurin Bevan urged Foot to return to the House of Commons and told him that perhaps he need not look further than Ebbw Vale. And so it was to be and so Wales gained an extraordinary man as one of our MPs. An assiduous local representative, he quickly gained the respect of his party, his constituents and his peers.

**Huw Lewis:** Mae colli Michael Foot yn ddiweddar yn 96 oed wedi anfon tonnau o gynhesrwydd a thristwch drwy'r Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Yr ydym wedi teimlo'i golled yn arw yma yng Nghymru. Yn fuan cyn iddo farw yn 1960, pwysodd Aneurin Bevan ar Foot i ddychwelyd i Dŷ'r Cyffredin gan ddweud wrtho nad oedd angen iddo o bosibl edrych ymhellach na Glyn Ebwy. Felly y bu, a chafodd Cymru ddydd eithriadol yn un o'n Haelodau Seneddol. Bu'n gynrychiolydd lleol diwyd, ac mewn fawr o dro, enillodd barch ei blaid, ei etholwyr a'i gyfoedion.

However, Michael Foot was so much more than just a good Member of Parliament. He rose to become leader of the Labour Party during the most difficult time that the party has ever faced. During the general election of 1983, Labour did battle, not just with a rejuvenated Tory administration, but with its own demons. That battle concerned not only the general election, but the very survival of Labour itself as a political force. Michael's qualities of transparent decency, honesty and idealism were a daily reminder to us, as Labour Party members, of what we worked for. As the storm of the election raged about us and the future looked grim, we held on to that.

Michael Foot was, the media decided, unfit to lead. He was slandered daily by journalists and commentators because they did not respect his insistence that what mattered most in politics was intellect and ideas, as opposed to image. Reason, ideas and the spoken and written word were the political weapons that Michael Foot wielded, but now with the domination of television, appearance became as important as substance and politics became the poorer for it.

Michael Mackintosh Foot—author, anti-fascist, orator, devolutionist, bibliophile, journalist, idealist, polymath and politician; MP for Ebbw Vale from 1960 to 1992 and leader of the Labour Party from 1980 to 1983. He was a great man and a great soul.

**The Leader of the Opposition (Nick Bourne):** Michael Foot first entered Parliament for Plymouth Devonport in 1945 before all but a very few in the Chamber were born. That is an indication of the span of office that he held some 65 years ago, before going on, as Huw has just mentioned, to represent Ebbw Vale, or latterly Blaenau Gwent, with great distinction.

Fodd bynnag, nid Aelod Seneddol da yn unig oedd Michael Foot. Yr oedd yn llawer mwy na hynny. Daeth yn arweinydd y Blaid Lafur yn y cyfnod anhawsaf y mae'r blaid wedi'i wynebu erioed. Yn ystod etholiad cyffredinol 1983, aeth y blaid Llafur i'r gad, nid yn unig â gweinyddiaeth Doriaidd a oedd wedi cael ail wynt, ond â'i chythreuliaid hi ei hun. Yr oedd a wnelo'r frwydr honno nid yn unig â'r etholiad cyffredinol, ond â pharhad Llafur ei hun fel grym gwleidyddol. Yr oedd rhinweddau Michael—dyn agored, agos i'w le, gonest a delfrydwr yn ein hatgoffa ni, aelodau'r Blaid Lafur, yn feunyddiol, o'r hyn yr oeddem yn gweithio drosto. Wrth i storm yr etholiad gorddi o'n cwmpas a phan oedd y dyfodol i bob golwg yn ddu, daliasom ein gafael yn hynny.

Nid oedd Michael Foot, penderfynodd y cyfryngau, yn deilwng i arwain. Fe'i henllibiwyd yn ddyddiol gan newyddiadurwyr a sylwebyddion oherwydd nad oeddent yn parchu ei argyhoeddiad mai'r hyn a oedd o'r pwys mwyaf mewn gwleidyddiaeth oedd deallusrwydd a syniadau, yn hytrach na delwedd. Arfau gwleidyddol Michael Foot oedd rheswm, syniadau a'r gair ysgrifenedig a llafar ond bellach, a theledu'n llywodraethu popeth, daeth pryd a gwedd yr un mor bwysig â sylwedd ac yr oedd gwleidyddiaeth gymaint â hynny'n dlotach o'r herwydd.

Michael Mackintosh Foot—awdur, gwrthffasgydd, areithiwr, datganolwr, llyfrgarwr, newyddiadurwr, delfrydwr, deallusyn a gwleidydd; AS dros Lyn Ebwy rhwng 1960 ac 1992 ac arweinydd y Blaid Lafur rhwng 1980 ac 1983. Yr oedd yn ŵr mawr ac yn enaid mawr.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne):** Ymunodd Michael Foot â'r Senedd gyntaf i gynrychioli Plymouth Devonport yn 1945 a hynny cyn geni'r rhan fwyaf helaeth sydd yn y Siambr hon. Mae hynny'n dangos gyhyd y bu'n gwasanaethu, gan ddechrau rhyw 65 mlynedd yn ôl, cyn mynd yn ei flaen, fel y crybwyllodd Huw yn awr, i gynrychioli Glynebwy, neu Flaenau Gwent wedyn, a

hynny mewn ffordd neilltuol iawn.

He was indeed a great parliamentarian, a great orator and a great man of letters—he was a writer on Hazlitt and Swift, among others. He was also a great patriot and was certainly quite capable of putting country before party, as he did at the time of the invasion of the Falkland Islands to give strong support to the recapture of those islands.

He could also, as we all know from reading reports—and in some cases, no doubt Members here have witnessed it first hand—be devastating in debate. Most commonly cited perhaps are his comments on David Steel: that he went from boy wonder to senior statesman with nothing in between.

He was the longest lived party leader that there has ever been in the United Kingdom. That shows, once more, the span that he had. He gave great service to Wales and to Ebbw Vale. I last saw him campaigning in Blaenau Gwent at the time of the by-election that followed the sad and untimely loss of our colleague Peter Law. That, again, is a sign that he was there, a firebrand, campaigning almost to the end. He will be greatly missed by us all.

**Helen Mary Jones:** It is my pleasure and privilege to pay this tribute on behalf of Ieuan Wyn Jones as leader of Plaid Cymru, on behalf of the whole Plaid Cymru group here and, indeed, the whole of the party. It was never my privilege to meet Michael Foot, which is a matter of regret to me, but as a young member of another political party, but also a socialist, he was an inspiration to me in his honesty and his clarity of vision. I associate myself very much with what Huw Lewis has said about him being a politician of ideas and principle.

I have taken the opportunity, over the last day or two, to talk to some of my colleagues who did know him. They were keen to emphasise

Yr oedd yn wir yn seneddwr o fri, yn areithiwr o fri ac yn ŵr llên o fri—ysgrifennodd am Hazlitt a Swift, ymhlith eraill. Yr oedd hefyd yn wladgarwr o fri ac yn sicr yn eithaf parod i roi ei wlad o flaen ei blaid, fel y gwnaeth adeg goresgyn Ynysoedd y Malfinas gan gefnogi'n gryf y camau i adfeddiannu'r ynysoedd hynny.

Gallai hefyd fod yn ddeifiol mewn dadl, fel y gwyddom i gyd o ddarllen adroddiadau—ac mewn ambell achos mae'n siŵr y bydd Aelodau yma wedi bod yn dystion i hynny eu hunain. Efallai mai'r sylwadau a ddyfynnir amlaf yw'r rheini ganddo am David Steel: i'r hogyn rhyfeddol droi'n uwch wladweinydd dros nos heb ddim rhwng y ddau.

Ef oedd yr arweinydd plaid a fu fyw hwyaf yn y Deyrnas Unedig. Dengys hynny, unwaith eto, ei hirhoedledd. Rhoddodd wasanaeth rhagorol i Gymru ac i Lyn Ebwy. Fe'i gwelais ddiwethaf yn ymgyrchu ym Mlaenau Gwent adeg yr isetholiad a ddaeth yn sgil colli'n cyd-Aelod Peter Law o dan amgylchiadau trist ac annhymig. Unwaith eto, dyna arwydd ei fod yno, yn benboethyn, yn ymgyrchu tan y diwedd un fwy nau lai. Byddwn i gyd yn gweld ei eisiau'n fawr.

**Helen Mary Jones:** Mae'n bleser ac yn fraint gennyf roi'r deyrnged hon ar ran Ieuan Wyn Jones, arweinydd Plaid Cymru, ar ran holl grŵp Plaid Cymru yma, ac, yn wir, ar ran y blaid i gyd. Ni chefais erioed y fraint o gyfarfod â Michael Foot, ac mae hynny'n resyn mawr gennyf, ond, a minnau'n aelod ifanc o blaid wleidyddol arall, ond yn un a oedd hefyd yn sosialydd, yr oedd ei onestrwydd ac eglurder ei weledigaeth yn fy ysbrydoli. Yr wyf yn cytuno i raddau helaeth iawn â'r hyn y mae Huw Lewis wedi dweud amdano, sef mai gwleidydd syniadau ac egwyddorion ydoedd.

Yr wyf wedi achub ar y cyfle, yn ystod y ddau neu'r tri diwrnod diwethaf, i siarad â rhai o'm cyd-Aelodau a oedd yn ei adnabod.

that one of his characteristics as a political leader was that he was never sectarian or narrow in his approach. What mattered to him was what was best for these countries and for his constituents. He was always more than ready to work with anyone else who shared that perspective and who was prepared to move that forward.

In recent days, much has been said of his period as the leader of the Labour Party and, of course, of that manifesto. I have looked at some of the policies in that manifesto, and when we look at some of the things that it had to say about regulating the banks and nationalising them if they refuse to co-operate, we can see that Michael Foot was, perhaps, a man ahead of his time rather than a man behind the times as he was portrayed at the time.

He was, of course, a great supporter of democracy, and a great supporter of devolution. We know that he was delighted when the people of Wales voted 'yes' to the creation of our National Assembly for Wales in 1997, although he would, of course, have preferred to see a more powerful parliament. It seems very appropriate in the context of his support for Welsh democracy and devolution that we are commemorating him here today as a great honorary Welshman who crossed political boundaries, a great speaker, and an inspiration to a generation of those of us who really want to put principle at the heart of our politics, and not spin. His passing is indeed a great loss to political culture in these islands and beyond, but he was particularly close to our hearts here in Wales.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** On behalf of the Welsh Liberal Democrat group, I will, if I may, add to this morning's tributes to the late Michael Foot. He was undoubtedly a great parliamentarian, and a man of integrity, conviction and political idealism.

These principles were brought to life with

Yr oeddent yn awyddus i bwysleisio mai un o'i nodweddion fel arweinydd gwleidyddol oedd nad oedd byth yn gul nac yn gyfyng ei agwedd. Yr hyn a oedd o bwys iddo oedd yr hyn a oedd orau i'r gwledydd hyn ac i'w etholwyr. Yr oedd bob tro'n fwy na pharod i gydweithio ag unrhyw un arall a oedd yn rhannu'r safbwynt hwnnw ac a oedd yn barod i fwrw ymlaen â hynny.

Yn ystod y dyddiau diwethaf, mae llawer wedi'i ddweud am ei gyfnod yn arwain y Blaid Lafur, ac, wrth gwrs, am y maniffesto hwnnw. Yr wyf wedi edrych ar rai o'r polisiau yn y maniffesto hwnnw, ac wrth inni edrych ar rai o'r pethau a ddywedai am reoleiddio'r banciau a'u gwladoli petaent yn gwrthod cydweithredu, gallwn weld mai gŵr o flaen ei oes o bosibl oedd Michael Foot, yn hytrach na gŵr a oedd yn llusgo ar ei hôl hi, fel y'i portreadwyd ar y pryd.

Yr oedd, wrth gwrs, yn gryf o blaid democratiaeth, ac yn gryf o blaid datganoli. Gwyddom ei fod wrth ei fodd pan bleidleisiodd pobl Cymru 'ie' dros greu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1997, er y byddai, wrth gwrs, wedi bod yn well ganddo weld senedd fwy grymus. Ymddengys yn briodol iawn yng nghyd-destun ei gefnogaeth i ddemocratiaeth a datganoli yng Nghymru ein bod yn ei goffâu yma heddiw fel Cymro anrhydeddus o fri a groesodd ffiniau gwleidyddol, areithiwr o fri, ac ysbrydoliaeth i genhedlaeth o'r rheini ohonom sydd yn wir am roi egwyddor yn hytrach na sbin wrth wraidd ein gwleidyddiaeth. Mae bwlech mawr ar ei ôl yn niwylliant gwleidyddol yr ynnysoedd hyn a'r tu hwnt, ond yr oedd yn arbennig o agos at ein calonnau ni yma yng Nghymru.

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn, os caf, ychwanegu at y teyrngedau y bore yma i'r diweddar Michael Foot. Yr oedd yn ddiamau'n seneddwr o fri, yn ŵr unplyg o argyhoeddiad ac yn ddelfrydwr gwleidyddol.

Anadlodd fywyd i'r egwyddorion hyn drwy

wonderful oratory, exquisite wordsmithery and penmanship. He was a politician who put the love of his own party before his own personal standing, who withstood the slings and arrows of a vicious media attack during that general election of 1983. He did so in an attempt to preserve the Labour movement.

The principles by which he pursued his political career should not be ignored by any of us in the Chamber. Politics will be poorer for his passing.

**Trish Law:** I met Michael Foot on several occasions and he always struck me as being a kind, gentle and compassionate man. He held strong socialist beliefs and it is a great shame that some of his principles are not on New Labour's agenda today.

He was one of the greatest orators of his time and an outspoken champion of left-wing causes. Locally, he was held in high esteem and I well remember him being made a freeman of the Blaenau Gwent borough in 1983, which was otherwise a bad year for him for it was that year that Labour suffered its worst electoral defeat in more than half a century under his leadership. However, that did not diminish the admiration that I and many others held for him as one of the great parliamentarians of the twentieth century.

10.40 a.m.

**Jane Davidson:** Some of us in the Chamber are old enough to remember the 1983 Labour Party manifesto. The tabloids called it the longest suicide note in history. I have to say, it brought me in to the Labour Party as a manifesto crafted by Tony Benn and promoted by Michael Foot. Of course, a key, significant pledge in that manifesto was to cancel the Trident programme.

Three years ago tomorrow, I issued a statement in which I said that:

ei areithiau rhyfeddol, ei ddawn ragorol i drin geiriau a'i allu i ysgrifennu. Yr oedd yn wleidydd a roddodd ei gariad at ei blaid ei hun o flaen ei statws personol. Gwrthsafodd ffyn tafl a saethau ymosodiadau cïaidd gan y cyfryngau yn ystod yr etholiad cyffredinol hwnnw yn 1983. Gwnaeth hynny er mwyn ceisio gwarchod y mudiad Llafur.

Ni ddylai neb ohonom yn y Siambr anwybyddu'r egwyddorion a oedd yn sail i'w yrfa wleidyddol. Bydd gwleidyddiaeth yn dlotach o'i golli.

**Trish Law:** Cyfarfûm droeon â Michael Foot, ac ar bob achlysur fe'i cefais yn wr caredig, addfwyn a theimladwy. Yr oedd yn arddel credoau sosialaidd cadarn ac mae'n bechod mawr nad yw rhai o'i egwyddorion ar agenda Llafur Newydd heddiw.

Yr oedd yn un o areithwyr mwyaf ei oes ac yn lladmerydd diflewyn-ar-dafod ar ran achosion yr adain chwith. Yn lleol, yr oedd yn fawr ei barch a chofiaf yn dda pan roddwyd iddo ryddfrait bwrdeistref Blaenau Gwent yn 1983. Yr oedd honno'n flwyddyn wael iddo fel arall, oherwydd yn y flwyddyn honno, o dan ei arweiniad, y dioddefodd y blaid Lafur ei chrasfa etholiadol waethaf ers dros hanner canrif. Serch hynny, nid oedd fy edmygedd i nac edmygedd llawer o bobl eraill ohono ddim llai. Yr oedd yn un o seneddwr mawr yr ugeinfed ganrif.

**Jane Davidson:** Mae rhai ohonom yn y Siambr yn ddigon hen i gofio maniffesto Plaid Lafur 1983. Yn ôl y papurau poblogaidd, hwnnw oedd y nodyn hunanladdiad hwyaf mewn hanes. Rhaid imi ddweud, y maniffesto hwnnw a'm denodd i'r Blaid Lafur, maniffesto a grewyd gan Tony Benn ac a hyrwyddwyd gan Michael Foot. Wrth gwrs, un addewid pwysig, allweddol yn y maniffesto hwnnw oedd canslo rhaglen Trident.

Dair blynedd yn ôl i yfory, cyhoeddais ddatganiad a oedd yn dweud:

‘It must be within our capacity as a civilised nation to address international difficulties by means of diplomacy and persuasion. It seems to me that any potential victims of [Trident or nuclear weapons] are not the leaders of a superpower or ‘rogue state’ but innocent civilians who have no part to play in the affairs in which such weapons may be used.’

What you did not know then is that three years ago today, I had a long conversation with Michael Foot, and what I said in that statement is directly related to that conversation. Michael Foot was 93 years old when we had that conversation. He retained his idealism all the way through his life, and he told me that it was important to stick to your principles and values. I do not think that there is a better message for us as politicians, and I pay personal tribute to him for giving me that time on that day, for being so ideological in his view as to give faith in the craft of politics, and, in his deliberate, kind and gentle way, for inviting me to visit him whenever I wished should I be in London. I am sorry that I never had the opportunity to take up that offer to visit, but what we have seen in Michael’s death is the death of a gentle, decent, honourable man who pursued his political ideals throughout his life.

**The Presiding Officer:** I thank you all for those tributes, and I would add one sentence of my own.

It was a great privilege for me to share the House of Commons for 18 years with Michael. There are certain people, without whom we would not be here today. Michael Foot, devolutionist, was certainly one of those. Diolch yn fawr.

Rhaid bod gennym y gallu, a ninnau’n genedl wâr, i fynd i’r afael ag anawsterau rhyngwladol drwy ddiplomyyddiaeth a pherswâd. Ymddengys i mi mai dinasyddion diniwed nad oes a wnelont ddim â sefyllfa lle y gellid defnyddio arfau o’r fath sy’n debygol o ddiodeff yn sgil [Trident neu arfau niwclear], ac nid arweinwyr un o’r pwerau mawr neu ‘wladwriaeth ddrwg’.

Yr hyn nad oeddech yn ei wybod bryd hynny oedd imi gael sgwrs hir â Michael Foot dair blynedd yn ôl i heddiw, a bod yr hyn a ddywedais yn y datganiad hwnnw’n uniongyrchol berthnasol i’r sgwrs honno. Yr oedd Michael Foot yn 93 oed pan gawsom y sgwrs honno. Glynodd wrth ei ddelfrydiaeth drwy gydol ei oes, a dywedodd wrthyf ei bod yn bwysig glynu wrth eich egwyddorion a’ch gwerthoedd. Ni chredaf fod neges well inni wreidyddion, a rhoddaf deyrnged bersonol iddo am roi’r amser hwnnw imi y diwrnod hwnnw, am fod mor ideolegol ei farn gan ymddiried yng nghreffft gwleidyddiaeth, ac am fy ngwahodd, yn ei ffordd fwriadol, garedig ac addfwyn, i ymweld ag ef pryd bynnag y dymunwn petawn yn Llundain. Mae’n ddrwg gennyf na chefais fyth y cyfle i dderbyn y cynnig hwnnw i ymweld, ond yr hyn yr ydym wedi’i weld ym marwolaeth Michael yw marwolaeth gŵr addfwyn, anrhydeddus, agos i’w le, a aeth ar drywydd ei ddelfrydau gwleidyddol drwy gydol ei oes.

**Y Llywydd:** Diolch ichi i gyd am y teyrngedau hynny, a hoffwn innau ychwanegu un frawddeg.

Bu’n anrhydedd fawr imi rannu Tŷ’r Cyffredin am 18 mlynedd gyda Michael. Oni bai am rai pobl, ni fyddem yma heddiw. Un o’r rheini’n sicr oedd Michael Foot, y datganolwr. Diolch yn fawr.

### **Cwestiynau i’r Prif Weinidog Questions to the First Minister**

**Y Llywydd:** Yr wyf wedi derbyn rhybudd, oherwydd dyletswyddau yn y Deyrnas

**The Presiding Officer:** I have been alerted to the fact that, because of duties in the



Unedig, y bydd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn ateb cwestiynau ar ran y Prif Weinidog.

### Youth Drinking Culture

**Q1 Mohammad Asghar:** Will the First Minister make a statement on the youth drinking culture in Wales? OAQ(3)2706(FM)

**The Minister for Business and Budget (Jane Hutt):** Our substance misuse strategy, 'Working Together to Reduce Harm', sets out a comprehensive programme of action to tackle the problems of alcohol misuse in Wales. The delivery of this strategy is supported by a substance misuse pooled budget of a minimum of £46.6 million for 2010-11.

**Mohammad Asghar:** I am sure that you have taken note of Alcohol Concern's recent report, in which it suggested that drinks promotions are fuelling dangerous and unhealthy consumption of alcohol in major cities and towns in Wales. The report states that more than half of men between 16 and 24 admitted to consuming above recommended alcohol levels in any given week. I agree that people should be free to enjoy themselves, but excessive drinking can have a disastrous effect on the health of young people and put strain the resources of the Welsh NHS and our police forces. Minister, can you outline how the Assembly Government is planning to tackle these problems and promote a healthy, commonsense drinking culture in Wales, particularly among our young people?

**Jane Hutt:** Two important points to make in response to that are to do with the way in which we are taking the strategy forward. We are providing information and support, not only to children and young people extensively through our all-Wales schools liaison core programme, but to parents, too. The Strengthening Families programme, which covers ages 10 to 14, is aimed at

United Kingdom, the Minister for Business and Budget will answer questions on behalf of the First Minister.

### Diwylliant Yfed Ymysg Pobl Ifanc

**C1 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y diwylliant yfed ymysg pobl ifanc yng Nghymru? OAQ(3)2706(FM)

**Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt):** Mae ein strategaeth ar gamddefnyddio sylweddau, 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed', yn cynnwys rhaglen weithredu gynhwysfawr i fynd i'r afael â phroblemau camddefnyddio alcohol yng Nghymru. Yn gefn i'r strategaeth hon mae cyllideb camddefnyddio sylweddau gyfun sy'n werth o leiaf £46.6 miliwn ar gyfer 2010-11.

**Mohammad Asghar:** Yr wyf yn siŵr eich bod wedi rhoi sylw i adroddiad Alcohol Concern yn ddiweddar, sy'n awgrymu bod hyrwyddo diodydd yn sbarduno arferion yfed alcohol sy'n beryglus ac yn ddrwg i iechyd pobl ym mhrif ddinasoedd a threfi Cymru. Dywed yr adroddiad fod dros hanner y dynion rhwng 16 a 24 oed yn cyfaddef eu bod yn yfed mwy na'r lefel alcohol a argymhellir mewn wythnos. Cytunaf y dylai pobl fod yn rhydd i fwynhau eu hunain, ond gall goryfed gael effaith ddinistriol ar iechyd pobl ifanc a rhoi straen ar adnoddau GIG Cymru a'n heddluoedd. Weinidog, a allwch ddweud sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu mynd i'r afael â'r problemau hyn a hyrwyddo diwylliant yfed iach a chall yng Nghymru, yn enwedig ymhlith ein pobl ifanc?

**Jane Hutt:** Wrth ymateb i hynny, dylwn wneud dau bwynt pwysig yn ymwneud â'r modd yr ydym yn bwrw ymlaen â'r strategaeth. Yr ydym yn darparu gwybodaeth a chymorth ar raddfa eang, nid yn unig i blant a phobl ifanc, drwy ein rhaglen graidd cyswllt ysgolion Cymru gyfan, ond i rieni hefyd. Nod y rhaglen Cryfhau Teuluoedd, sy'n ymwneud â phobl ifanc rhwng 10 ac 14

strengthening those protective factors about parenting, communication, and young people's resilience skills. I am sure that you will be interested in the fact that we are supporting Gwent Police in piloting a series of parenting evenings to raise awareness of the consequences of the harmful use of alcohol.

**Val Lloyd:** Minister, I welcome the fact that the Welsh Assembly Government is calling for more action to improve unit and health information on alcohol labels, and that an extra £5.9 million a year has been provided for the substance misuse action plan for 2010-11, which represents a 20 per cent increase on the current year. Do you agree that to be in a position to deal with such issues among young people, you need to be aware of all the facts and circumstances and not be so out of touch that you statistically misrepresent the extent of an issue by a whopping 1,000 per cent, as the Tories recently did with teenage pregnancy figures?

**Jane Hutt:** I am sure that your point has hit home on the other side of the Chamber, and we will not let them forget that mistaken statistic. These are very serious issues, and our strategy is drawing attention to the help and support that is available for young people in school settings. We are also engaging with further and higher education by developing good practice guidelines. The new school-based counselling strategy is about ensuring that we reach young people when they are at the most vulnerable times in their lives, and we are working through the media to raise awareness of alcohol misuse among drinkers, and through our evening and night-time economy framework. Therefore, this Government is addressing the issue not just through its strategies, but with funding, as you said, Val.

**Helen Mary Jones:** Minister, do you agree that we must be careful in the debate about

oed, yw cryfhau'r ffactorau gwarchodol hynny ym maes rhianta, cyfathrebu a sgiliau pobl ifanc i sefyll yn gadarn. Yr wyf yn siŵr y byddai gennych ddi-ddordeb yn y ffaith ein bod yn cefnogi Heddlu Gwent wrth dreialu cyfres o nosweithiau rhianta i gynyddu ymwybyddiaeth o ganlyniadau defnyddio alcohol mewn ffordd niweidiol.

**Val Lloyd:** Weinidog, yr wyf yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn galw am fwy o gamau i wella'r wybodaeth am unedau ac iechyd ar labeli alcohol, a bod £5.9 miliwn yn ychwanegol y flwyddyn wedi'i ddarparu ar gyfer y cynllun gweithredu ar gamdefnyddio sylweddau yn 2010-11, sy'n gynydd o 20 y cant o'i gymharu ag eleni. A gytunwch, er mwyn gallu ymdrin â materion o'r fath ymhlith pobl ifanc, fod angen ichi fod yn wybodol o'r ffeithiau a'r amgylchiadau i gyd, heb ichi fod mor bell o'r sefyllfa nes ichi gamddechongli maint problem i'r graddau eich bod 1,000 allan ohoni, fel y gwnaeth y Torïaid yn ddiweddar gyda ffigurau beichiogrwydd yn yr ardegau.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn siŵr eich bod wedi pwynt wedi cyrraedd ochr arall y Siambr, ac ni adawn iddynt anghofio'r ystadegyn gwallus hwnnw. Mae'r rhain yn faterion difrifol iawn, ac mae ein strategaeth yn tynnu sylw at y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i bobl ifanc yn yr ysgol. Yr ydym hefyd yn meithrin cysylltiad ag addysg bellach ac addysg uwch drwy ddatblygu canllawiau arferion da. Mae a wnelo'r strategaeth gwnsela newydd mewn ysgolion â sicrhau ein bod yn cyrraedd pobl ifanc ar yr adeg yn eu bywyd pan fyddant fwyaf agored i niwed, ac yr ydym yn gweithio drwy'r cyfryngau i gynyddu ymwybyddiaeth o gamdefnyddio alcohol ymhlith yfwyr, a thrwy fframwaith economi'r hwyr a'r nos. Felly, mae'r Llywodraeth hon yn mynd i'r afael â'r broblem hon, nid drwy ei strategaethau'n unig, ond drwy ddarparu arian, fel y dywedaso, Val.

**Helen Mary Jones:** Weinidog, a ydych yn cytuno ei bod yn rhaid inni fod yn ofalus wrth

alcohol misuse not to demonise young people's alcohol misuse as being the only problem, and that we should not allow the debate to suggest that it is only young people who drink irresponsibly who cause problems of bad behaviour in the community? While it is essential that we address young people's behaviour and hope that they develop good habits early on, do you agree that we must also address the binge drinking culture among older people? I include in that what has been described in the media as the middle class drinking at home, as well as what goes on more obviously in pubs in our communities.

**Jane Hutt:** Absolutely, Helen Mary, and it behoves us as adults to recognise the impact of this in the policies that we are trying to take forward. Raising awareness of alcohol misuse among home drinkers is a key part of that policy. We are backing the home drinking campaign, which was featured during Alcohol Awareness Week last year, along with Health Challenge Wales's 'small steps' television advertisement in 2008-09. It is about developing images of homes as bars and pubs, and making sure that we recognise that this involves an adult and parental responsibility. It is also about taking forward some of the issues that we feel are important, such as stricter rules on the promotion of alcohol and considering reducing demand by introducing minimum pricing. We are also determined to press the case for an increase in taxation and linking levels of tax more closely to alcohol strength.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 2, OAQ(3)2713(FM), a chwestiwn 3, OAQ(3)2715(FM), yn ôl.

#### **Boosting Economic Competitiveness**

**Q4 Nick Ramsay:** Will the First Minister outline his policies for boosting economic competitiveness? OAQ(3)2725(FM)

drafod camddefnyddio alcohol na fyddwn yn ysgymuno pobl ifanc sy'n camddefnyddio alcohol gan awgrymu mai dyma'r unig broblem, ac na ddylem ganiatáu i'r ddadl awgrymu mai pobl ifanc yn unig sy'n yfed yn anghyfrifol sy'n achosi problemau ymddygiad gwael yn y gymuned? Er ei bod yn hollbwysig inni fynd i'r afael ag ymddygiad pobl ifanc gan obeithio y byddant yn meithrin arferion da ym more oes, oni chredwch ei bod yn rhaid inni hefyd fynd i'r afael â'r diwylliant yfed afreolus ymhlith pobl hŷn? Cynhwysaf yn hynny yr hyn y mae'r cyfryngau wedi'i alw'n yfed dosbarth canol gartref, yn ogystal â'r hyn sy'n digwydd yn fwy amlwg mewn tafarndai yn ein cymunedau.

**Jane Hutt:** Yn sicr, Helen Mary, ac mae'n gyfrifoldeb arnom ni'r oedolion sylweddoli effaith hyn yn y polisiau yr ydym yn ceisio bwrw ymlaen â hwy. Mae cynyddu ymwybyddiaeth o gamddefnyddio alcohol ymhlith pobl sy'n yfed gartref yn rhan allweddol o'r polisi hwnnw. Yr ydym yn cefnogi'r ymgyrch yfed gartref, a oedd yn elfen yn yr Wythnos Ymwybyddiaeth Alcohol y llynedd, ynghyd â hysbyseb teledu 'camau bychain' gan Her Iechyd Cymru yn 2008-09. Mae'n golygu datblygu delweddau o gartrefi fel bariau a thafarndai, a sicrhau ein bod yn sylweddoli bod hyn yn cynnwys cyfrifoldeb fel oedolion a rhieni. Mae'n golygu fwrw ymlaen â rhai o'r materion sy'n bwysig yn ein barn ni, megis rheolau llymach ynglŷn â hyrwyddo alcohol ac ystyried lleihau'r galw drwy gyflwyno lleiafswm pris. Yr ydym hefyd yn benderfynol o bwysu am gynyddu'r dreth a chysylltu lefelau'r dreth yn agosach â chryfder alcohol.

**The Presiding Officer:** Question 2, OAQ(3)2713(FM), and question 3, OAQ(3)2715(FM), are withdrawn.

#### **Hybu Cystadleurwydd Economaidd**

**C4 Nick Ramsay:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei bolisiau ar gyfer rhoi hwb i gystadleurwydd economaidd? OAQ(3)2725(FM)

**Jane Hutt:** The economic renewal programme is setting the trajectory for improved economic competitiveness. ProAct, and its successor, the Skills for Growth programme, show that we continue to be responsive to the needs of employers, and that we are committed to workforce development in Wales.

**Nick Ramsay:** I am more pleased to be asking you this question than I would to be asking the First Minister, because we will probably get an answer. During his appearance on *The Andrew Marr Show*, the First Minister said that he wanted to unleash the forces of the private sector in Wales. How does your Government intend to do that, given your resolute firmness not to do so where necessary within certain aspects of Welsh life, including the national health service and other areas where it might be beneficial?

10.50 a.m.

**Jane Hutt:** I am a bit confused by your question, particularly the starting point. I think that you were taken unawares in being put in this position. The people of Wales and the business and economic community of Wales will want to know that the Assembly Government, particularly through the economic summits that we have taken forward over the past year, will help steer Wales through the biggest economic crisis that the world has seen for many years and that it will engage with employers in a way that will allow us to be proactive and responsive. We must recognise again that the ProAct scheme, which is already meeting the needs of nearly 9,000 individuals by providing support of £23.1 million to companies and training providers and which is now being followed through with a Skills for Growth element, is being taken forward by the First Minister. We must also recognise, as he has said more than once, that we want to give entrepreneurial opportunities to our young people, moving through to business. The economic renewal programme,

**Jane Hutt:** Mae'r rhaglen adnewyddu economaidd yn gosod y trywydd ar gyfer gwell cystadleurwydd economaidd. Mae rhaglen ProAct, a'i holynydd, y rhaglen Sgiliau ar gyfer Twf, yn dangos ein bod yn dal i ymateb i anghenion cyflogwyr, a'n bod wedi ymrwmo i ddatblygu'r gweithlu yng Nghymru.

**Nick Ramsay:** Yr wyf yn falchach cael gofyn y cwestiwn hwn i chi nag y byddwn o'i ofyn i'r Prif Weinidog, oherwydd mae'n debyg y cawn ateb. Pan ymddangosodd ar *The Andrew Marr Show*, dywedodd y Prif Weinidog ei fod am ryddhau grymoedd y sector preifat yng Nghymru. Sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu gwneud hynny, o gofio eich bod yn benderfynol o beidio â gwneud hynny lle mae angen mewn rhai agweddau ar fywyd Cymru, gan gynnwys yn y gwasanaeth iechyd gwladol a meysydd eraill lle gallai hynny fod o fudd?

**Jane Hutt:** Mae eich cwestiwn yn fy nrysio braidd, yn enwedig ei fan cychwyn. Credaf eich bod wedi'ch rhoi yn y sefyllfa hon yn ddirybudd braidd. Bydd pobl Cymru a'r gymuned fusnes ac economaidd yng Nghymru am gael gwybod bod Llywodraeth y Cynulliad, yn enwedig drwy'r uwchgynadleddau economaidd yr ydym wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn helpu llywio Cymru drwy'r argyfwng economaidd mwyaf y mae'r byd wedi'i weld ers blynyddoedd lawer, ac y bydd yn meithrin cysylltiad â chyflogwyr mewn ffordd a fydd yn caniatáu inni fod yn rhagweithiol ac yn ymatebol. Rhaid inni sylweddoli eto bod y cynllun ProAct, sydd eisoes yn diwallu anghenion bron 9,000 o unigolion drwy ddarparu cymorth gwerth £23.1 miliwn i gwmnïau a darparwyr hyfforddiant, ac sydd bellach yn cael ei ategu gan elfen Sgiliau ar gyfer Twf, yn cael ei dywys gan y Prif Weinidog. Rhaid inni hefyd sylweddoli, fel y mae wedi dweud fwy nag unwaith, ein bod am roi cyfleoedd entrepreneuriaidd i'n pobl ifanc sy'n symud

which is being taken forward by the Deputy First Minister, is key to that. We know that we can be confident because recent polling demonstrates that Gordon Brown and Carwyn Jones are trusted to help lead Wales out of the recession and are seen as the best people to run the economy in Wales. Forty-seven per cent said that they would rather that Gordon and Carwyn were in charge; 24 per cent were for Nick and David.

**Rhodri Morgan:** Does the Minister agree that our competitiveness will be boosted by Next Generation Data's new £8 million financing round to develop the next phase of its £100 million data centre in the empty LG building in Newport? That will finally get off our backs the giant white elephant that was bequeathed to us by the naive incompetence of William Hague, the last Conservative Secretary of State for Wales, who threw away £150 million of taxpayers' money on it, a sum that you can double to £300 million when you take into account the assist that he gave to Michael Ashcroft not to pay UK taxes over the past 10 years.

**Jane Hutt:** I am glad to have the opportunity to remind the Chamber again of who the people of Wales think is competent to run the economy in Wales and to lead Wales out of recession. By a two to one margin, it is Gordon and Carwyn, not—[*Interruption.*]

**The Presiding Officer:** Order. I do not know what has got into the Welsh Conservatives today, but—[*Interruption.*] Order. Members know that the content of answers is a matter for the Minister, not for me—

**Nick Bourne:** What about questions?

**The Presiding Officer:** Order. Questions are interrogative statements, and if they are grammatically correct and arise reasonably out of the original question, they are in order, and always have been in this place. It does not benefit our proceedings at all if we are to

drwodd i fyd busnes. Mae'r rhaglen adnewyddu economaidd, dan arweiniad y Dirprwy Brif Weinidog, yn allweddol i hynny. Gwyddom y gallwn fod yn hyderus gan fod y polau diweddaraf yn dangos bod pobl yn ymddiried yn Gordon Brown a Carwyn Jones i helpu arwain Cymru o'r dirwasgiad, ac yn gweld mai hwy yw'r bobl orau i fod yn gyfrifol am yr economi yng Nghymru. Dywedodd 47 y cant y byddai'n well ganddynt weld Gordon a Carwyn wrth y llyw; 24 y cant oedd o blaid Nick a David.

**Rhodri Morgan:** A yw'r Gweinidog yn cytuno y caiff ein cystadleurwydd hwb yn rownd ariannu newydd Next Generation Data, a fydd yn gwario £8 miliwn i ddatblygu cyfnod nesaf ei ganolfan data gwerth £100 miliwn yn adeilad gwag LG yng Nghasnewydd? O'r diwedd, bydd hynny'n cael gwared â'r eliffant gwyn enfawr a adawyd inni yn sgil naifrwydd aneffeithiol William Hague, Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol diwethaf Cymru. Gwastraffodd £150 miliwn o arian trethdalwyr arno, swm y gallwch ei ddyblu i £300 miliwn pan ystyriwch y cymorth a roddodd i Michael Ashcroft i beidio â thalu trethi'r Deyrnas Unedig dros y 10 mlynedd diwethaf.

**Jane Hutt:** Yr wyf yn falch cael y cyfle i atgoffa'r Siambr eto pwy, ym marn pobl Cymru, sy'n gymwys i fod yn gyfrifol am ein heconomi ac i'n tywys o'r dirwasgiad. O fwyafrif o ddau i un, Gordon a Carwyn yw'r rheini, nid—[*Torri ar draws.*]

**Y Llywydd:** Trefn. Ni wn beth sydd ar y Ceidwadwyr Cymreig heddiw, ond—[*Torri ar draws.*] Trefn. Mae'r Aelodau'n gwybod mai mater i'r Gweinidog yw cynnwys atebion, nid i mi—

**Nick Bourne:** Beth am gwestiynau?

**Y Llywydd:** Trefn. Datganiadau gofynnol yw cwestiynau, ac os ydynt yn ramadegol gywir ac yn codi'n rhesymol yn sgil y cwestiwn gwreiddiol, maent mewn trefn, ac felly y bu erioed yn y fan hon. Nid yw gweiddi ar ein gilydd bob tro pan fydd

carry on shouting at each other every time we have First Minister's questions from now until a Westminster election. I have tried, in my own sweet way, to ensure that that is the case. I have other weapons available in my arsenal and they shall be deployed one of these days.

**Jane Hutt:** It is important for the Welsh people to remember what William Hague left us with, and to say, yet again, that William Hague will not redeem himself in terms of leaving us with that white elephant. Let us also recognise that, as you said, Rhodri, a state-of-the-art data centre is now opening in Wales. It is probably the largest and most sophisticated in the whole of Europe. In addition, the importance that—*[Interruption.]*

**The Presiding Officer:** Order. If this barracking by the Welsh Conservatives does not stop, I shall not call any more of you. I have said that before. I hate behaving like this, but if you will not listen to my reasonable request for courtesy, I will have to take action.

**Jane Hutt:** Thank you, Llywydd. It is important to note that we have been involved with the company and the NGD Newport project since 2007. We have been assisting with the identification of potential sites and facilitating the conversion of the LG site in Newport. I am delighted to say that the Deputy Minister for Science, Innovation and Skills, Lesley Griffiths, has accepted an invitation from Next Generation Data to open the new data centre on Thursday, 11 March. Is that not a good news day for the economy and workforce of Wales?

**Kirsty Williams:** I am sure that the many people who have lost their jobs in the ongoing recession find little gratification in listening to politicians in this Chamber throwing rocks at each other. Is it not true to say that although the Government has been delivering on a few good news projects—and I welcome very much what has happened on the LG site—there is a project not a million

cwestiynau i'r Prif Weinidog rhwng nawr ac etholiad yn San Steffan o fudd i'n trafodion ni o gwbl. Yr wyf wedi ceisio, yn fy ffordd ddihafal fy hun, sicrhau mai felly y mae. Mae gennyf arfau eraill at fy nefnydd, a byddaf yn eu defnyddio ryw ddiwrnod.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig i bobl Cymru gofio'r hyn a adawyd inni gan William Hague, a dweud, unwaith eto, nad oedd gadael yr eliffant gwyn hwnnw inni yn glod i William Hague. Gadewch inni gydnabod, fel y dywedaso, Rhodri, fod canolfan data o'r math diweddaraf un yn agor yng Nghymru yn awr. Mae'n debyg mai dyma'r fwyaf a'r mwyaf soffistigedig yn Ewrop gyfan. Yn ogystal â hynny, mae'r pwysigrwydd—*[Torri ar draws.]*

**Y Llywydd:** Trefn. Oni ddaw'r rhefru hwn gan y Ceidwadwyr Cymreig i ben, ni fyddaf yn galw ar neb arall o'ch plith. Yr wyf wedi dweud hynny o'r blaen. Mae'n gas gennyf ymddwyn fel hyn, ond os nad ydych am wrando ar fy nghais rhesymol am fod yn gwrtais, bydd yn rhaid imi weithredu.

**Jane Hutt:** Diolch, Lywydd. Mae'n bwysig dweud inni fod yn ymwneud â'r cwmni ac â phrosiect NGD Casnewydd er 2007. Yr ydym wedi bod yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i safleoedd posibl a hwyluso'r ffordd i addasu safle LG yng Nghasnewydd. Yr wyf wrth fy modd cael dweud bod y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau, Lesley Griffiths, wedi derbyn gwahoddiad gan Next Generation Data i agor y ganolfan data newydd ddydd Iau, 11 Mawrth. Onid yw hynny'n ddiwrnod newyddion da i economi Cymru a'i gweithlu?

**Kirsty Williams:** Yr wyf yn siŵr na fydd clywed gwleidyddion yn taflu cerrig at ei gilydd yn y Siambr hon yn fawr o gysur i'r llu o bobl sydd wedi colli eu swyddi yn y dirwasgiad parhaus. Onid yw'n wir dweud, er bod y Llywodraeth wedi llwyddo i roi ychydig brosiectau newyddion da inni—a chroesawaf yn fawr yr hyn sydd wedi digwydd ar safle LG—fd prosiect nid nepell i

miles away in the Vale of Glamorgan that has been an unmitigated disaster? We should all be mindful of that. In April of last year, the first annual report of the Wales Employment and Skills Board, chaired by Sir Adrian Webb, recommended that the Welsh Government's single most important priority should be the creation of a dynamic private sector in Wales. How far has your Government progressed along that line in the past 12 months?

**Jane Hutt:** The economic renewal programme, which the Deputy First Minister announced in October, was brought forward because he wanted to take a fresh look at our approach to economic development after the recession. As one of the five drivers of productivity identified by the Treasury and as one of our key policy levers, skills will feature strongly, which accords with the Wales Employment and Skills Board. In taking this forward, through the summits that were chaired by our former First Minister, and now by our new First Minister, we have developed not only the important workforce development programme, offering free skills advice and help in sourcing training, but also the basic skills employer pledge, enhancing leadership and management skills and the pathways to apprenticeships, and, importantly, Flexible Support for Business. The latter means that we are refocusing support to keep viable businesses trading during the economic downturn, and we are looking to support those with true growth potential as effectively as possible.

**Kirsty Williams:** Is it not the truth that Flexible Support for Business has woefully not been taken up by businesses across Wales and that the Deputy First Minister's economic renewal programme will not be completed for many months to come and will only be finished at the fag end of this administration? Despite the long list of initiatives that you have reeled off, the reality for working people in Wales is that we have

ffwrdd ym Mro Morgannwg wedi bod yn drychineb llwyr? Dylem i gyd gofio hynny. Ym mis Ebrill y llynedd, argymhelliad adroddiad blynyddol cyntaf Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, dan gadeiryddiaeth Syr Adrian Webb, oedd mai'r un flaenoriaeth bwysicaf y dylai Llywodraeth Cymru fynd ar ei thrywydd oedd creu sector preifat deinamig yng Nghymru. I ba raddau y mae eich Llywodraeth wedi dilyn y trywydd hwnnw yn y 12 mis diwethaf?

**Jane Hutt:** Dygwyd y rhaglen adnewyddu economaidd, a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ym mis Hydref, yn ei blaen oherwydd ei fod am edrych o'r newydd ar ein hagwedd at ddatblygu economaidd ar ôl y dirwasgiad. Un o'r pum peth sy'n sbarduno cynhyrchiant ac a nodwyd gan y Trysorlys, ac un o'n pum sbardun polisi allweddol, yw sgiliau, a bydd hynny'n elfen gref. Mae hynny'n gyson â safbwynt Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Drwy fwrw ymlaen â hyn, drwy'r uwchgynadleddau dan gadeiryddiaeth ein cyn Brif Weinidog, ac yn awr gan ein Prif Weinidog newydd, yr ydym wedi datblygu nid yn unig raglen bwysig ar gyfer datblygu'r gweithlu, gan gynnig cyngor am ddim ar sgiliau a chymorth i gael hyfforddiant, ond hefyd yr adduned ar sgiliau sylfaenol gan gyflogwyr a fydd yn cryfhau sgiliau arwain a rheoli a'r llwybrau at brentisiaethau, ac, yn bwysig, Cymorth Hyblyg i Fusnes. Mae'r olaf yn golygu ein bod yn ailganolbwyntio ein cymorth i sicrhau bod busnesau hyfyw'n parhau i fasnachu yn ystod y dirywiad economaidd, ac yr ydym yn ceisio cynorthwyo'r rheini sydd â photensial gwirioneddol yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl.

**Kirsty Williams:** Onid y gwir trist yw nad yw busnesau ledled Cymru wedi manteisio ar Gymorth Hyblyg i Fusnes, ac na chaiff rhaglen adnewyddu economaidd y Dirprwy Brif Weinidog ei chwblhau am fisoedd lawer eto ac y bydd y weinyddiaeth hon yn dirwyn i ben erbyn hynny? Er gwaethaf y rhestr hir o gynlluniau yr ydych wedi'u rhaffu, y gwirionedd i bobl sy'n gweithio yng Nghymru yw mai yma y mae'r gyfradd ail

the second lowest rate of new business start-ups in the UK, we have the lowest gross value added per head of population in the UK, we have unenviable levels of unemployment, and training within further and higher education institutions have been subject to financial cuts from your Government. Given the plethora of programmes that you have just reeled off, should we not be looking at statistical outcomes that are better than those that are currently available to our citizens?

**Jane Hutt:** You cannot reel off any programmes, Kirsty, because you are not in charge of a government. We are delivering programmes that are not only keeping businesses and our workforce going, but are upskilling the workforce in readiness for the upturn. The ProAct scheme is one such example that is recognised across the world. On Flexible Support for Business, between April last year and January of this year, 1,307 offers, worth £111 million were made, and these are expected to create or safeguard over 12,000 private sector jobs and attract £660 million-worth of capital investment. That is the Government acting to support businesses and the private sector.

**Kirsty Williams:** As you know, Minister, only a small percentage of the FSB budget is currently available. Surely it is of concern to you that Welsh businesses do not even want to engage with your Government to invest in the Welsh economy? There has been a similar underspend in the ProAct budget and you are now having to use that money for other things. While some jobs have undoubtedly been safeguarded through that scheme, its coverage is extremely patchy across Wales, and you now have to divert the budget to something else. You will be aware of the news from Pembrokeshire with regard to the Chevron oil refinery. The Deputy First Minister, who is not here today, has been quoted this morning as saying that the Welsh Assembly Government will do everything that it can to assist in that situation. What

isaf o fusnesau newydd sy'n cychwyn yn y Deyrnas Unedig. Yma y mae'r gwerth ychwanegol crynswth isaf y pen o'r boblogaeth yn y Deyrnas Gyfunol. Mae diweithdra yma yn rhywbeth na fyddai neb yn ei chwennych, ac mae hyfforddiant mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch wedi wynebu toriadau ariannol gan eich Llywodraeth. O gofio'r llu rhaglenni yr ydych newydd eu rhaffu, oni ddylem fod yn edrych ar ganlyniadau ystadegol gwell na'r rheini sydd ar gael i'n dinasyddion ar hyn o bryd?

**Jane Hutt:** Ni allwch chi raffu dom rhaglenni o gwbl, Kirsty, oherwydd nid ydych yn gyfrifol am lywodraeth. Yr ydym ni'n darparu rhaglenni sy'n gwneud mwy na chadw'n busnesau'n fyw a'n gweithlu mewn gwaith. Yr ydym hefyd yn gwella sgiliau'r gweithlu yn barod ar gyfer pan ddaw tro ar fyd. Enghraifft o hynny yw'r cynllun ProAct sy'n cael ei gydnabod drwy'r byd. O ran Cymorth Hyblyg i Fusnes, rhwng mis Ebrill y llynedd a mis Ionawr eleni cafwyd 1,307 o gynigion, gwerth £111 miliwn, a disgwylir i'r rhain greu neu ddiogelu dros 12,000 o swyddi yn y sector preifat gan ddenu gwerth £660 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Dyna'r Llywodraeth yn gweithredu i gefnogi busnesau a'r sector preifat.

**Kirsty Williams:** Fel y gwyddoch, Weinidog, canran fach yn unig o gyllideb y Ffederasiwn Busnesau Bach sydd ar gael ar hyn o bryd. Siawns nad ydych yn poeni nad yw busnesau Cymru hyd yn oed am ymwneud â'ch Llywodraeth i fuddsoddi yn economi Cymru? Mae tanwariant tebyg wedi bod yng nghyllideb ProAct, ac yn awr rhaid ichi ddefnyddio'r arian hwnnw at ddibenion eraill. Er bod rhai swyddi'n ddiamau wedi'u diogelu drwy'r cynllun hwnnw, darniog iawn yw ei ddylanwad drwy Gymru, ac yn awr rhaid ichi ddargyfeirio'r gyllideb a'i defnyddio at rywbeth arall. Gwyddoch am y newyddion o sir Benfro am burfa olew Chevron. Dyfynnwyd y Dirprwy Brif Weinidog, nad yw yma heddiw, yn dweud y bore yma y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud bopeth yn ei gallu i



discussions has the Deputy First Minister had with Chevron and other relevant parties in this case to ensure that the jobs of more than 1,000 people employed in Pembrokeshire as well as those working for the ancillary services in the local economy supporting the work at Chevron will not be jeopardised?

gynorthwyo yn y sefyllfa honno. Pa drafodaethau y mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi'u cael gyda Chevron a chyrrff perthnasol eraill yn y cyswllt hwn i sicrhau na fydd bygythiad i swyddi'r 1,000 o bobl a mwy a gyflogir yn sir Benfro, yn ogystal â swyddi'r bobl hynny yn yr economi leol sy'n gweithio i'r gwasanaethau ategol ac yn cefnogi'r gwaith yn Chevron?

11.00 a.m.

**Jane Hutt:** It is important that we think back to the last summit that we held at Coleg Sir Gâr, where we had two managing directors of companies in Wales that had benefited from the ProAct scheme. In fact, Lesley Griffiths introduced them to the summit, which included representatives of the Institute of Directors, CBI Wales, Wales TUC and local government and vice-chancellors. Representatives from those private sector companies were sitting around the table, recognising what a difference ProAct had made, not just by keeping people in work and upskilling, but also through innovation in product development. Do not undermine this success story for Wales. Of course, there must be a successor, and the next step is the skills growth programme, being taken forward by Lesley Griffiths, to ensure that we work on embedding the recovery as we help to lead Wales out of the recession.

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig inni feddwl yn ôl at yr uwchgynhadledd ddiwethaf a gynhaliwyd yng Ngholeg Sir Gâr, lle'r oedd dau reolwr-gyfarwyddwr o gwmnïau yng Nghymru a oedd wedi elwa o gynllun ProAct yn bresennol. A dweud y gwir, fe'u cyflwynwyd i'r uwchgynhadledd gan Lesley Griffiths, ac yno yr oedd cynrychiolwyr Sefydliad y Cyfarwyddwyr, CBI Cymru, TUC Cymru a llywodraeth leol ac is-gangellorion. Yr oedd cynrychiolwyr y cwmnïau hynny o'r sector preifat yn eistedd o gwmpas y bwrdd, yn cydnabod faint o wahaniaeth yr oedd ProAct wedi'i wneud, nid yn unig drwy gadw pobl mewn gwaith a gwella'u sgiliau, ond hefyd drwy arloesi ym maes datblygu cynnyrch. Peidiwch â thanseilio'r hanes hwn o lwyddiant i Gymru. Wrth gwrs, rhaid cael olynnydd, a'r cam nesaf yw'r rhaglen datblygu sgiliau y mae Lesley Griffiths yn bwrw ymlaen â hi. Bydd yn sicrhau ein bod yn gweithio er mwyn i'r adferiad fwrw gwreiddiau wrth inni helpu arwain Cymru allan o'r dirwasgiad.

You asked a question about Chevron. The Deputy First Minister has spoken to representatives from Chevron this morning about the announcement. There will be a meeting with the company to discuss its plans, while recognising that no decision has been taken on closing Chevron. It is to stay on board. In fact, as Chevron's only refinery in Europe, this site is of huge significance, for refining capacity and for economic value to the area. The site is there, the workforce is there, the work is done and, as the manager said this morning on the radio, it is an efficient site that is delivering. That is what

Yr oedd gennych gwestiwn am Chevron. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi siarad â chynrychiolwyr Chevron y bore yma am y cyhoeddiad. Bydd cyfarfod â'r cwmni i drafod ei gynlluniau, gan sylweddoli nad oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â chau Chevron. Bydd y trafodaethau'n parhau. A dweud y gwir, gan mai dyma'r unig burfa sydd gan Chevron yn Ewrop, mae'r safle hwn yn eithriadol o bwysig, o ran ei gapasiti puro a'i werth economaidd i'r ardal. Mae'r safle yno, mae'r gweithlu yno, mae'r gwaith yn cael ei wneud, ac fel y dywedodd y rheolwr y bore yma ar y radio, mae'n safle effeithlon

we want to back, which is what the Deputy First Minister will be doing.

**Gareth Jones:** Weinidog, a ydych yn credu y byddai'r Prif Weinidog yn cydnabod y cyfraniad y mae addysg uwch yn ei wneud i economi Cymru, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried effaith luosogol buddsoddi uniongyrchol mewn addysg uwch? Pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'i gyd-Weinidogion a'r sector addysg uwch er mwyn hyrwyddo gallu Cymru i fod yn fwy cystadleuol yn economaidd?

**Jane Hutt:** You are quite right that the multiplier effect of higher education is critical, economically. Research by the University of Strathclyde, for example, commissioned by Higher Education Wales, suggests that, in 2005-06, for every £1 million invested in higher education by the Assembly Government, the sector contributed £5.3 million to the Welsh economy. On the interaction between higher education institutions and business, it is important to recognise that we are among the most successful at delivery, working very closely across Government, through the academic expertise for business programme, work on higher skills development and the pan-Wales national research institute. Is it not good news that the new Chief Scientific Adviser for Wales, Professor John Harries from Imperial College London, is starting on 1 May? He will be playing a part in relation to the economic multiplier effect of HE.

**Nick Bourne:** Minister, you will be familiar with the latest Eurostat figures, which demonstrate that we are on course to qualify for convergence funding yet again. We will be the only region of the UK to do so: Cornwall and the Isles of Scilly will not, Merseyside will not, and Yorkshire and the Humber will not. We were told last time that it was a statistical blip that we managed to qualify but, no, GDP and GVA have fallen again since then, as a percentage of the whole of the European Union, including new entrant countries, such as Romania and Bulgaria.

sy'n cyflawni'r gofynion. Dyna yr ydym am ei gefnogi, a dyna y bydd y Dirprwy Brif Weinidog yn ei wneud.

**Gareth Jones:** Minister, do you believe that the First Minister would acknowledge the contribution which higher education makes to the Welsh economy, particularly when one considers the multiplier effect of direct investment in higher education? What discussions has he held with his fellow Ministers and the higher education sector to promote Wales's ability to be more economically competitive?

**Jane Hutt:** Yr ydych yn llygad eich lle fod effaith luosogol addysg uwch yn hollbwysig o safbwynt economaidd. Mae ymchwil gan Brifysgol Strathclyde, er enghraifft, a gomisiynwyd gan Addysg Uwch Cymru, yn awgrymu bod y sector wedi cyfrannu £5.3 miliwn i economi Cymru yn 2005-06 am bob £1 filiwn a fuddsoddwyd mewn addysg uwch gan Lywodraeth y Cynulliad. O ran y rhyngweithio rhwng sefydliadau addysg uwch a byd busnes, mae'n bwysig sylweddoli ein bod ymhlith y rhai mwyaf llwyddiannus o ran cyflawni, gan weithio'n glos iawn ym mhob rhan o'r Llywodraeth, drwy'r rhaglen arbenigedd academiaidd ar gyfer busnes, y gwaith ar ddatblygu sgiliau uwch, a sefydliad ymchwil cenedlaethol Cymru gyfan. Onid yw'n newyddion da fod Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru, yr Athro John Harries o Imperial College Llundain, yn dechrau ar 1 Mai? Bydd ganddo ran mewn cysylltiad ag effaith luosogol economaidd Addysg Uwch.

**Nick Bourne:** Weinidog, byddwch yn gyfarwydd â ffigurau diweddaraf Eurostat, sy'n dangos ein bod ar y trywydd iawn i fod yn gymwys i gael arian cydgyfeirio unwaith eto. Ni fydd unig ranbarth y Deyrnas Unedig i fod yn gymwys: ni fydd Cernyw nac Ynysoedd Scilly, ni fydd Glannau Mersi, ac ni fydd Swydd Efrog a Humber. Dywedwyd wrthym y tro diwethaf mai eithriad ystadegol oedd yn gyfrifol am y ffaith ein bod yn gymwys, ond, nage, mae ein Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, a'n Gwerth Ychwanegol Crynswth wedi gostwng eto ers

Does that not bring us back to earth after the exultant crowing about our economic position? Is it not a matter of great shame for the Welsh economy? It shows that we are being outperformed by other areas in the United Kingdom. It must be the fault of your Government.

**Jane Hutt:** It is not a matter of shame. Let us try to put this into perspective. Those figures are part of a UK-wide phenomenon. The UK's GDP per head dropped 3.6 points relative to the EU average in 2007, while Wales's relative fall was lower at 3.1 points. You do not like it when the figures work in a way that recognises that the economy is supported and backed by this Government. The relative fall in west Wales and the Valleys of 3.5 points was also less than the all-UK decline. Do not try to point your finger at the investment that we are putting into west Wales and the Valleys through European funding. The economy of the whole of Wales is influenced by a wide range of economic factors. In addition, the economic renewal programme will change the way in which we are helping business and will position the Welsh economy so that we can compete with the rest of the world.

**Nick Bourne:** I have the figures before me, Minister. They are Eurostat figures, not mine. You say that it has declined elsewhere in the United Kingdom. I happen to have the Cornwall figures before me. In 1999, Cornwall was 67.9 per cent of the European Union average—and that was the European Union that did not include some of the poorer countries. It is now 75.2 per cent of the European Union average. I am sorry, but these are the figures. I am not picking and choosing. They are Eurostat official figures. In Wales, for west Wales and the Valleys,

hynny, fel canran o'r Undeb Ewropeaidd drwyddo draw, gan gynnwys y gwledydd sydd wedi ymuno o'r newydd, megis Romania a Bwlgaria. Onid yw hynny'n ein llusgo yn ôl i'r ddaear ar ôl y brolio gorfoleddus am ein sefyllfa economaidd? Onid yw'n destun cywilydd mawr i economi Cymru? Mae'n dangos bod ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig yn gwneud yn well na ni. Rhaid mai eich Llywodraeth chi sydd ar fai.

**Jane Hutt:** Nid yw'n destun cywilydd. Gadewch inni geisio gweld hyn yn ei gyddestun. Rhan o ffenomen sydd ar waith drwy'r Deyrnas Unedig yw'r ffigurau hynny. Gwelwyd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yn y Deyrnas Unedig yn gostwng 3.6 pwynt o'i gymharu â'r cyfartaledd yn yr Undeb Ewropeaidd yn 2007, ac yr oedd y gostyngiad cymharol yng Nghymru yn is, sef 3.1 pwynt. Nid ydych yn ei hoffi pan fydd y ffigurau'n gweithio mewn ffordd sy'n cydnabod bod y Llywodraeth hon yn cefnogi ac yn cynnal yr economi. Yr oedd y gostyngiad cymharol o 3.5 pwynt yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd hefyd yn is na'r dirywiad yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Peidiwch â cheisio pwyntio'ch bys at ein buddsoddi yn y gorllewin a'r Cymoedd drwy gyfrwng arian Ewrop. Mae ystod eang o ffactorau economaidd yn dylanwadu ar economi Cymru gyfan. Yn ogystal â hynny, bydd y rhaglen adnewyddu economaidd yn newid y ffordd yr ydym yn cynorthwyo byd busnes a bydd yn rhoi economi Cymru mewn sefyllfa lle gall gystadlu â gweddill y byd.

**Nick Bourne:** Mae'r ffigurau gennyf o'm blaen, Weinidog. Ffigurau Eurostat ydynt, nid fy ffigurau i. Yr ydych yn dweud iddo ostwng mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Mae ffigurau Cernyw yn digwydd bod o'm blaen. Yn 1999, yr oedd Cernyw yn 67.9 y cant o gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd—ac nid oedd yr Undeb Ewropeaidd hwnnw'n cynnwys rhai o'r gwledydd tlotaf. Mae'n ddrwg gennyf, ond dyma'r ffigurau. Nid wyf yn dewis a dethol. Ffigurau swyddogol Eurostat ydynt. Yng Nghymru, yn y gorllewin a'r Cymoedd mae'r

there has been a decline in that time from 76.5 per cent to 73.4 per cent. You say that it is a UK phenomenon, but that puts the lie to it. We are qualifying again for European aid as a result of the economic policies that you are pursuing, but they leave west Wales and the Valleys poorer now than 10 years ago, when compared with Cornwall, for example, which is considerably richer. What is the Government doing wrong, Minister?

**Jane Hutt:** We can sit here and debate figures, but I will not repeat them again—and I am sure that the Presiding Officer will be pleased about that. You must not read too much into one year's figures, as is clearly advised by Eurostat. If you do not want to hear the figures or my point about the relative fall being less than the all-UK figures, go ahead and undermine Wales and the economy. That is what tends to come from your side of the Chamber. If the First Minister were here, he would tell you again—as he told you last week, when you asked this question—not to forget to look at gross disposable household income data, Nick. You would then get another picture of the position of Wales and the relative figures. Considering that we have been through a recession and are now coming out of it, the gross disposable household income data for Wales are very promising.

**Nick Bourne:** I will not run Wales down, but I have the figures here, Minister. They are not one year's figures, but 10 years' figures. They are official Eurostat figures. I am running down the Government's performance, which has let down the people of Wales. You have tried to move the argument on to something that you think you would be happier with, so let us look at the disposable income figures. The wealth gap between the poorest and the richest in society, based on Government figures, is the greatest it has been since 1961. It is far

fffigur wedi gostwng yn y cyfnod hwnnw o 76.5 y cant i 73.4 y cant. Dywedwch mai ffenomen sydd i'w gweld yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw yw hon, ond nid yw hynny'n wir. Yr ydym yn gymwys unwaith eto i gael cymorth gan Ewrop oherwydd y polisïau economaidd yr ydych yn eu dilyn. Ond maent yn gadael gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dlotach yn awr nag oeddent 10 mlynedd yn ôl, o'u cymharu â Chernyw, er enghraifft, sy'n sylweddol gyfoethocach. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud o'i le, Weinidog?

**Jane Hutt:** Gallwn eistedd yma a dadlau am ffigurau, ond nid wyf am eu hailadrodd eto—ac yr wyf yn siŵr y bydd y Llywydd yn falch o hynny. Rhaid ichi beidio â dehongli gormod ar ffigurau un flwyddyn, ac mae Eurostat yn dweud hynny'n glir. Os nad ydych am glywed y ffigurau na'r pwynt yr wyf yn ei wneud fod y gostyngiad cymharol yn llai na'r ffigurau ar gyfer y Deyrnas Unedig drwyddi draw, rhwydd hynt ichi danseilio Cymru a'r economi. Dyna y mae eich ochr chi o'r Siambr yn dueddol o'i wneud. Petai'r Prif Weinidog yma, byddai'n dweud wrthyh eto—fel y dywedodd wrthyh yr wythnos diwethaf pan ofynasoch y cwestiwn hwn—am beidio ag anghofio edrych ar y data ar incwm aelwydydd crynswth i'w wario, Nick. Yna, caech ddarlun arall o sefyllfa Cymru a'r ffigurau cymharol. O gofio inni fod drwy ddirwasgiad a'n bod yn awr yn dod allan ohono, mae'r data ar incwm aelwydydd crynswth i'w wario ar gyfer Cymru yn addawol iawn.

**Nick Bourne:** Nid wyf am ladd ar Gymru, ond mae'r ffigurau gennyf yma, Weinidog. Nid ffigurau blwyddyn mohonynt, ond ffigurau 10 mlynedd. Ffigurau swyddogol Eurostat ydynt. Lladd ar berfformiad y Llywodraeth yr wyf, sydd wedi gwneud cam â phobl Cymru. Yr ydych wedi ceisio troi'r ddadl at bwnc y credwch y byddech yn hapusach yn ei drafod, felly, gadewch inni edrych ar ffigurau ar incwm i'w wario. Mae'r bwlc cyfoeth rhwng y tlotaf a'r cyfoethocaf yn ein cymdeithas, ar sail ffigurau'r llywodraeth, yn fwy nag a fu er 1961. Mae'n

greater now than it was in the 1970s and the 1980s, but that is not because of a lot of wealth, as we know. The gap between the poorest and the richest in society is the greatest it has been for 50 years, under your Government here and under a Labour Government at Westminster. They are Government figures. What are you doing about that?

**Jane Hutt:** The wealth gap would certainly increase dramatically if the Conservatives were in charge. We know that, at a UK Government level, they would be ending tax credits and cutting public services in the fields of education, health and wellbeing, which are critical to the economy. We know what would happen to the wealth gap if the Conservatives were to have power. However, we also know that the people of Wales do not trust the Conservatives to run our economy, by a margin of 2:1. I repeat it again. You did not like the news last week, Nick. You did not like the figures that said that there was greater trust in Gordon Brown and Carwyn Jones than in David Cameron and Nick Bourne to deliver confidence in the economy in Wales and to ensure investment. We are a Government that has intervened from day one of the recession. When you were in Government, you did not want to do anything. You said, 'Let the market have its way'. Nothing would have happened, and there would have been no ProAct, ReAct or skills growth if you had been in charge, Nick.

11.10 a.m.

**Nick Bourne:** There we are, Presiding Officer. The Minister has offered no answer on GVA and no answer on the wealth gap. Let us try another one to see whether she has an answer to this one, rather than continuing to clutch at straws.

Last week, we heard from the Deputy First Minister that he had not ruled out the option of privatising Finance Wales. The First Minister, in his manifesto for leadership,

fwy o lawer yn awr nag ydoedd yn yr 1970au a'r 1980au, ond nid oherwydd bod llawer o gyfoeth, fel y gwyddom. Mae'r bwlch rhwng y tlotaf a'r mwyaf cefnog yn ein cymdeithas yn fwy nag a fu ers 50 mlynedd, dan eich Llywodraeth chi yma, a than Lywodraeth Lafur yn San Steffan. Ffigurau'r Llywodraeth yw'r rheini. Beth yr ydych yn ei wneud ynglŷn â hynny?

**Jane Hutt:** Byddai'r bwlch cyfoeth yn sicr yn lledu'n ddramatig petai'r Ceidwadwyr mewn grym. Gwyddom, ar lefel Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y byddent yn rhoi'r gorau i gredydau treth ac yn cwtdogi gwasanaethau cyhoeddus ym maes addysg, iechyd a lles, sy'n hollbwysig i'r economi. Gwyddom beth fyddai'n digwydd i'r bwlch cyfoeth petai'r Ceidwadwyr yn cael grym. Fodd bynnag, gwyddom hefyd nad yw pobl Cymru'n ymddiried yn y Ceidwadwyr i lywio'n heconomi, a hynny o fwyafrif o 2:1. Dywedaf hynny eto. Nid oeddech yn hoffi'r newyddion yr wythnos diwethaf, Nick. Nid oeddech yn hoffi'r ffigurau a ddywedai fod pobl yn ymddiried mwy yn Gordon Brown a Carwyn Jones nag yn David Cameron a Nick Bourne i greu hyder yn yr economi yng Nghymru ac i sicrhau buddsoddi. Llywodraeth sydd wedi ymyrryd ers diwrnod cyntaf y dirwasgiad ydym. Pan oeddech chi yn y Llywodraeth, nid oeddech am wneud dim. Meddech, 'Gadewch i'r farchnad gael rhwydd hyn'. Ni fyddai dim wedi digwydd, ac ni fuasai na rhaglen ProAct na ReAct na gwella sgiliau petasech chi wrth y llyw, Nick.

**Nick Bourne:** Dyna ni, Lywydd. Nid yw'r Gweinidog wedi cynnig yr un ateb ynglŷn â Gwerth Ychwanegol Crynswth nac ynglŷn â'r bwlch cyfoeth. Gadewch inni roi cynnig ar un arall i weld a oes ganddi ateb i'r cwestiwn hwn, yn hytrach na dal i fyw mewn gobaiith.

Yr wythnos diwethaf, clywsom gan y Dirprwy Brif Weinidog ei fod yn dal yn agored ei feddwl ynglŷn â phosibilrwydd preifateiddio Cyllid Cymru. Yn ei fanifesto i

talked of the great success of that publicly owned investment bank and said that is was a model that could be promoted. Which of those two views represents Government policy?

**Jane Hutt:** It is very clear that Finance Wales has been incredibly successful at supporting business, in its investments, and in accessing JEREMIE funding. I answered a question on this at the Finance Committee. If there needs to be a reclassification of Finance Wales to enable it to do its job more effectively, we will need to look at that, and welcome it if it would takes Finance Wales forward. Finance Wales is delivering as a result of Government intervention, demonstrating that we have a vehicle to support business when it needs to borrow and invest.

**Nick Bourne:** That was a very long answer to a question that I did not ask. Could I have a very short answer to a question that I am asking: have you ruled out privatisation?

**Jane Hutt:** I have already answered the point. It was about reclassification if appropriate and if it helps the businesses of Wales.

**Jeff Cuthbert:** Minister, you quite rightly pointed out how we seek to mitigate the worst effects of the recession on the Welsh economy. You referred to European structural funds. Of course, you are absolutely right to say that, according to the Eurostat figures, the drop in Wales is less than the drop across the UK as a whole. We should also be reminded that, had the Conservative Government chosen to take advantage of the European structural funds that were offered in 1993, the situation now might be significantly different. It chose not to do that.

Minister, on the Welsh economy, do you share my concerns that many firms, especially small firms, will be looking to procure business from publicly funded

arwain ei blaid soniodd y Prif Weinidog am lwyddiant mawr y banc buddsoddi hwnnw sy'n eiddo i'r cyhoedd, gan ddweud ei fod yn fodel y gellid ei hyrwyddo. Pa un o'r ddwy farn hyn sy'n cynrychioli polisi'r Llywodraeth?

**Jane Hutt:** Mae'n gwbl glir fod Cyllid Cymru wedi bod yn anhygoel o lwyddiannus yn cefnogi busnesau, yn ei fuddsoddiadau, ac o ran cael gafael ar arian JEREMIE. Atebais gwestiwn ar hyn yn y pwyllgor Cyllid. Os oes angen ailgategoreiddio Cyllid Cymru i'w alluogi i wneud ei waith yn fwy effeithiol, bydd angen inni edrych ar hynny, a'i groesawu petai'n gymorth i Gyllid Cymru ddatblygu. Mae Cyllid Cymru'n cyflawni pethau yn sgil ymyrryd gan y Llywodraeth, gan ddangos bod gennym gyfrwng i gefnogi busnesau pan fydd angen iddynt fenthycu a buddsoddi.

**Nick Bourne:** Dyna ateb hir iawn i gwestiwn na ofynnais. Tybed a gaf ateb byr iawn i gwestiwn yr wyf yn ei ofyn: a ydych wedi penderfynu peidio ag ystyried preifateiddio?

**Jane Hutt:** Yr wyf eisoes wedi ateb y pwynt. Yr oedd a wnelo ag ailgategoreiddio, os yw hynny'n briodol ac os bydd o gymorth i fusnesau Cymru.

**Jeff Cuthbert:** Weinidog, yr oeddech yn iawn yn dweud sut yr ydym yn ceisio lliniaru effeithiau gwaethaf y dirwasgiad ar economi Cymru. Soniech am gronfeydd strwythurol Ewrop. Wrth gwrs, yr ydych yn llygad eich lle wrth ddweud, yn ôl ffigurau Eurostat, fod y gostyngiad yng Nghymru yn llai na'r gostyngiad yn y Deyrnas Unedig drwyddi draw. Dylem gofio hefyd, petai'r Llywodraeth Geidwadol wedi dewis manteisio ar gronfeydd strwythurol Ewrop a gynigiwyd yn 1993, y gallai'r sefyllfa fod dipyn yn wahanol yn awr. Dewisodd beidio â gwneud hynny.

Weinidog, o ran economi Cymru, a ydych chi fel finnau'n poeni y bydd nifer o gwmnïau, yn enwedig cwmnïau bychain, yn ceisio caffael busnes gan gyrff a noddir gydag arian

bodies, and yet there is a report of the Tory conference in the *Western Mail*, under the heading, 'Tories insist cuts will be needed in Assembly's new budget', which says that the Tory leader, Nick Bourne, has said that there should be a no-holds-barred review of Welsh Assembly Government funding? What happened to their promises to protect health and education? Would that not be an absolute disaster for the people and businesses of Wales?

**Jane Hutt:** We also know, from reading that report of the conference in the *Western Mail*, that there may be a reintroduction of prescription charges. They also talked about changes to other policy areas that are benefiting people, such as our investment in free breakfasts, which enables children to have the best possible education. They were talking about our frittering money away on free breakfasts. When they hear that message from the Welsh Conservatives, the parents of the children in the 1,000 primary schools in Wales that offer free breakfasts will know that the Conservatives are not on their side, and are not maximising their opportunities to work, or the opportunities for their children to benefit from the best start in life.

### Affordable Housing

**Q5 Peter Black:** Will the First Minister make a statement on progress towards meeting the affordable housing target set out in 'One Wales'? OAQ(3)2720(FM)

**Jane Hutt:** Significant progress has been made towards reaching our target of building 6,500 new affordable homes, despite difficult economic conditions. By the halfway point of this Government, 4,235 additional affordable housing units had been delivered across Wales, and we remain committed to reaching that target.

**Peter Black:** That you for that answer, Minister. We had a debate last week on how misleading those figures are. May I ask you about the draft LCO on affordable housing

cyhoeddus, ac eto bod adroddiad o gynhadledd y Torïaid yn y *Western Mail*, dan y pennawd, 'Tories insist cuts will be needed in Assembly's new budget', gan ddweud bod arweinydd y Torïaid, Nick Bourne, wedi dweud y dylid cael adolygiad o ariannu Llywodraeth y Cynulliad, a hwnnw'n adolygiad diamod? Beth a ddigwyddodd i'w haddewidion i warchod iechyd ac addysg? Oni fyddai hynny'n drychineb llwyr i bobl a busnesau Cymru?

**Jane Hutt:** Gwyddom hefyd, o ddarllen yr adroddiad hwnnw am y gynhadledd yn y *Western Mail* ei bod yn bosibl yr ailgyflwynir taliadau presgripsiwn. Soniwyd hefyd am newidiadau mewn meysydd polisi eraill sydd o fudd i bobl, megis ein buddsoddiad mewn brecwastau am ddim, sy'n galluogi plant i gael yr addysg orau posibl. Yr oeddent yn sôn am wastraffu arian ar frechwastau am ddim. Pan glywant y neges honno gan y Ceidwadwyr Cymreig, bydd rhieni'r plant yn y 1,000 o ysgolion cynradd yng Nghymru sy'n cynnig brecwastau am ddim yn gwybod nad yw'r Ceidwadwyr ar eu hochr, ac nad ydynt am sicrhau'r cyfleoedd gorau iddynt weithio, na'r cyfleoedd i'w plant elwa o'r cychwyn gorau mewn bywyd.

### Tai Fforddiadwy

**C5 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd at gyflawni'r targed tai fforddiadwy sydd yn 'Cymru'n Un'? OAQ(3)2720(FM)

**Jane Hutt:** Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud at gyrraedd ein targed o godi 6,500 o dai fforddiadwy newydd er gwaethaf amgylchiadau economaidd anodd. Erbyn i'r Llywodraeth hon gyrraedd hanner y ffordd drwy ei chyfnod, yr oedd 4,235 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol wedi'u darparu ledled Cymru, ac yr ydym yn dal yn benderfynol o gyrraedd y targed hwnnw.

**Peter Black:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Cawsom ddadl yr wythnos diwethaf ynglyn â pha mor gamarweiniol yw'r ffigurau hynny. A gaf eich holi am y

that has now gone to the Houses of Parliament? I understand that the Government is expecting it to end up in the wash-up when a general election is called and that it may well fall as a result. Minister, do you not think that if we could get time allocated to it in the Houses of Parliament before the general election is called, we would have a chance of getting it on the statute book? What representations have you made to the UK Government about finding time for that LCO to be debated and passed, so that we do not have to rely on that wash-up procedure?

**Jane Hutt:** It is amazing to think that, just one week before voting against the affordable housing LCO in Plenary, the Conservatives voted in favour of further law-making powers for the Assembly in the trigger vote. They had not voted against the LCO in committee, and that is a great contradiction in their position. I am grateful, Peter, that you recognise that this is about delivering more affordable housing for Wales, and we need to get that LCO through. We need to tackle shortages and problem areas in our rural communities, and we need to have the power for early intervention with housing associations to reduce the risks to them. We need to have powers to prevent homelessness, which is why Shelter Cymru was so concerned about the way in which the Conservatives did not support our LCO. We need to have single tenancy and allocations policies recognised under the sustainable housing LCO. It is vital that the sustainable housing LCO goes through, and I hope very much that it will progress through the wash-up before the general election is called.

**Jeff Cuthbert:** You quite rightly refer to the housing and local government LCO that we very recently passed, which will bring changes in areas such as social landlords,

Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft ar dai fforddiadwy sydd bellach wedi mynd i Dai'r Senedd? Deallaf fod y Llywodraeth yn disgwyl iddo gael ei daflu i'r pair pan elwir etholiad cyffredinol ac y gall fethu yn sgil hynny. Weinidog, oni chredwch, pe gallem sicrhau bod amser yn cael ei neilltuo ar ei gyfer yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi cyn galw etholiad cyffredinol, y byddai cyfle inni ei gael ar y llyfr statud? Pa sylwadau yr ydych wedi'u cyflwyno i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â chael amser i drafod a phasio'r Gorchymyn hwnnw, fel na fydd raid inni ddiwyddu ar y weithdrefn honno lle caiff popeth ei daflu i'r pair?

**Jane Hutt:** Mae'n rhyfeddol meddwl bod y Ceidwadwyr, brin wythnos cyn pleidleisio yn erbyn y Gorchymyn ar dai fforddiadwy yn y Cyfarfod Llawn, wedi pleidleisio o blaid rhagor o bwerau deddfu i'r Cynulliad yn y bleidlais sbarduno. Nid oeddent wedi pleidleisio yn erbyn y Gorchymyn yn y pwyllgor, ac mae hynny'n groesddweud mawr ganddynt. Yr wyf yn ddiolchgar, Peter, eich bod yn sylweddoli bod a wnelo hyn â darparu mwy o dai fforddiadwy i Gymru, ac mae angen inni sicrhau bod y Gorchymyn hwnnw'n mynd drwodd. Mae angen inni fynd i'r afael â phrinder a'r ardaloedd sy'n broblem yn ein cymunedau gwledig, ac mae angen inni gael y pŵer i ymyrryd yn gynnar gyda'r cymdeithasau tai er mwyn lleihau'r peryglon iddynt hwy. Mae angen inni gael pwerau i atal digartrefedd, a dyna pam yr oedd Shelter Cymru'n poeni gymaint am ddiffyg cefnogaeth y Ceidwadwyr i'n Gorchymyn. Mae angen inni sicrhau cydnabyddiaeth i denantiaethau sengl a pholisiau dyrannu o dan y gorchymyn tai cynaliadwy. Mae'n hollbwysig i'r Gorchymyn tai cynaliadwy fynd drwodd, ac yr wyf yn gobeithio'n fawr y daw drwy'r weithdrefn o sdaflu popeth i'r pair cyn galw'r etholiad cyffredinol.

**Jeff Cuthbert:** Yr ydych yn llygad eich lle wrth gyfeirio at y Gorchymyn tai a llywodraeth leol a basiwyd gennym yn ddiweddar iawn. Bydd yn arwain at newid



social housing tenancies, homelessness, housing allocations and housing-related support. Given that we have just heard that the Conservatives are planning a no-holds-barred review of public spending by the Assembly, what lessons should the people of Wales draw from the Conservatives' decision not to support the LCO, and indeed their current position on public spending?

**Jane Hutt:** That is why we had quietness on that side of the Chamber for a few minutes—

**The Presiding Officer:** Order. Minister, please do not encourage them.

**Jane Hutt:** They know full well that they have been caught on this. Although it went through committee and they claimed to support early intervention in terms of helping housing associations, reducing risks and the importance of access to private finance support, and although they claim to recognise that we need better interventions to support homeless people and that they want to sort out the allocations policy and move to the single tenancy, they were not prepared to give unanimous backing to a sustainable housing LCO that would have taken us forward. It was important for the people of Wales to hear unanimous endorsement from the Chamber, but they did not give it. That is where they stand in terms of housing and vulnerable people, and that is where they stand in terms of that so-called independent review of public finance. We know that social housing would lose out.

**Mark Isherwood:** Working with a UK Conservative Government, we would push forward as a priority on all the positive elements of that Order, as I have made absolutely clear. In fact, this is about a short-term cynical political target for 2011, but, as the Home Builders Federation says, there is a massive housing crisis in England and Wales, and we are building fewer homes than at any time since the second world war. National House-Building Council figures to the end of

mewn meysydd megis landlordiaid cymdeithasol, tenantiaethau tai cymdeithasol, digartrefedd, dyrannu tai a chymorth cysylltiedig â thai. A chofio ein bod newydd glywed mai cynllun y Ceidwadwyr yw cynnal adolygiad diamod o wariant cyhoeddus gan y Cynulliad, pa wersi y dylai pobl Cymru eu dysgu yn sgil penderfyniad y Ceidwadwyr i beidio â chefnogi'r Gorchymyn, ac yn wir, eu safbwynt presennol ar wario cyhoeddus?

**Jane Hutt:** Dyna pam yr oedd yr ochr honno o'r Siambr yn dawel am ychydig funudau—

**Y Llywydd:** Trefn. Weinidog, peidiwch â'u hannog, os gwelwch yn dda.

**Jane Hutt:** Maent yn gwybod yn iawn eu bod wedi eu dal ar hyn. Er iddo fynd drwy'r pwyllgor ac er iddynt honni eu bod yn cefnogi ymyrryd yn gynnar er mwyn cynorthwyo cymdeithasau tai, lleihau'r peryglon a phwysigrwydd gallu cael cymorth cyllid preifat, ac er honni eu bod yn cydnabod bod angen gwell ymyriadau i gynorthwyo pobl ddigartref a'u bod am gael trefn ar y polisi dyrannu a symud at y denantiaeth sengl, nid oeddent yn barod i roi eu cefnogaeth unfrydol i Orchymyn tai cynaliadwy a fyddai wedi'n cynorthwyo i gamu ymlaen. Yr oedd yn bwysig i bobl Cymru glywed cadarnhad unfrydol gan y Siambr, ond ni roesant hynny. Dyna'u safbwynt ar dai a phobl sy'n agored i niwed, a dyna'u safbwynt ar yr adolygiad annibynnol, fel y'i gelwir, o gyllid cyhoeddus. Gwyddom y byddai tai cymdeithasol ar eu colled.

**Mark Isherwood:** Drwy weithio gyda Llywodraeth Geidwadol y Deyrnas Unedig, byddem yn bwrw ymlaen â holl elfennau cadarnhaol y Gorchymyn hwnnw, gan wneud hynny'n flaenoriaeth, ac yr wyf wedi gwneud hynny'n gwbl glir. A dweud y gwir, mae a wnelo hyn â tharged sinigaidd gwleidyddol tymor byr ar gyfer 2011, ond fel y dywed Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai, mae argyfwng tai enfawr yng Nghymru ac yn Lloegr, ac yr ydym yn codi llai o dai nag a

last month show a further 29 per cent cut on a 10-year average in new homes started, and a further 23 per cent cut in the number of new homes completed. As the Home Builders Federation said, social and affordable housing delivery is now inextricably linked to private housing delivery, so that reduced private provision equals reduced affordable provision. When will your Government finally engage with the private sector at strategic delivery level, in a real working partnership with the social housing sector, to finally turn the corner and start delivering in areas in which it did not need this Order to deliver? You did not need to cut housing supply and you did not need to cut affordable, low-cost housing schemes within the powers you already had, but you did.

**Jane Hutt:** Quite clearly, we are back to rhetorical statements rather than questions, Mark. You are clearly not going to take responsibility for voting against a legislative opportunity taken forward in committee and in the Chamber, which would address those issues.

11.20 a.m.

We are on target to deliver 6,500 extra affordable homes over the term of this Government. We have put additional resources into the supply of affordable housing, and have put in additional strategic capital investment funding for the development of registered social landlords. We are also making the most of opportunities to increase housing demand. We are taking advantage of new properties and land to help to maintain employment in the building industry. Housing associations are committing more of their own resources at a time when they need our support in alleviating the risks. That relates to the early

wnaethom ar unrhyw adeg ers yr ail ryfel byd. Dengys ffigurau'r Cyngor Adeiladu Tai Cenedlaethol hyd at ddiwedd y mis diwethaf ostyngiad o 29 y cant arall ar gyfartaledd 10-mllynedd yn nifer y cartrefi newydd a ddechreuwyd, a gostyngiad o 23 y cant eto yn nifer y cartrefi newydd a gwblhawyd. Fel y dywedodd Ffederasiwn yr Adeiladwyr Tai, nid oes modd gwahanu darparu tai cymdeithasol a fforddiadwy bellach oddi wrth ddarparu tai preifat. Felly, os oes gostyngiad yn y ddarpariaeth breifat, bydd y ddarpariaeth fforddiadwy'n gostwng hefyd. Pryd fydd eich Llywodraeth o'r diwedd yn ymwneud â'r sector preifat ar lefel darparu strategol, mewn partneriaeth weithio go iawn gyda'r sector tai cymdeithasol, er mwyn troi'r gornel o'r diwedd a dechrau darparu mewn meysydd lle nad oedd angen y Gorchymyn hwn er mwyn gwneud hynny? Nid oedd angen ichi dorri ar y cyflenwad tai ac nid oedd angen ichi dorri ar gynlluniau tai fforddiadwy, cost-isel o fewn y pwerau a oedd gennych eisoes, ond dyna a wnaethoch.

**Jane Hutt:** Mae'n amlwg ein bod wedi dychwelyd at ddatganiadau rhethregol yn hytrach na chwestiynau, Mark. Mae'n amlwg nad ydych yn bwriadu ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros bleidleisio yn erbyn cyfle i ddeddfu a dywyswyd drwy'r pwyllgor a'r Siambr ac a fyddai'n mynd i'r afael â'r materion hynny.

Yr ydym ar y trywydd iawn i ddarparu 6,500 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod oes y Llywodraeth hon. Yr ydym wedi darparu adnoddau ychwanegol er mwyn darparu tai fforddiadwy, ac wedi darparu arian buddsoddi cyfalaf strategol ychwanegol ar gyfer datblygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Yr ydym hefyd yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynyddu'r galw am dai. Yr ydym yn manteisio ar eiddo a thir newydd er mwyn cynorthwyo i gynnal cyflogaeth yn y diwydiant adeiladu. Mae cymdeithasau tai'n ymrwymo mwy o'u hadnoddau eu hunain ar adeg pan fo arnynt angen ein cymorth i liniaru'r risgiau. Mae a wnelo

intervention in the proposed LCO, which you voted against. Therefore, you are on very thin ground in respect of any expectations that we, or, more importantly, the housing sector, might have of what you would deliver. There is no clarity whatsoever on that. You will have a fundamental review of our finances anyway, with public spending cuts round the corner.

### Arson

**Q6 William Graham:** Will the First Minister outline the Welsh Assembly Government's policies to tackle arson? OAQ(3)2703(FM)

**Jane Hutt:** The 'Wales Arson Reduction Strategy', which was published in 2007, sets the blueprint for multi-agency activity to tackle arson. Combined with funding of almost £9 million since 2004, this collaborative approach has seen the cost of arson in Wales reduce from £60.5 million to £39.8 million between 2004-05 and 2008-09.

**William Graham:** Thank you for your answer, Minister. You will know that the trend of recent years indicates that the number of malicious arson attacks increases in spring. We have seen some success in the implementation of the initiatives aimed at reducing fire starts, such as Operation Phoenix and the fire-setting intervention scheme. The news that 15 grass fires were maliciously started on mountain sides in Cefn Fforest two weeks ago, and a similar spate of incidents across Wales over the weekend, reminds us of the ever-potent threat that arson poses to people and property. Minister, I welcome the remark that you have just made. How effective do you think the initiatives will be this summer, which the Met Office, once again, is predicting will be unusually warm and dry?

**Jane Hutt:** That is an important question.

hynny â'r ymyrryd cynnar yn y Gorchymyn arfaethedig y gwnaethoch chi bleidleisio yn ei erbyn. Felly, yr ydych ar dir sigledig iawn o ran unrhyw ddisgwyliadau a fyddai gennym ni, neu'n bwysicach na hynny, gan y sector tai ynglŷn â'r hyn y byddech yn ei gyflawni. Nid oes eglurder o gwbl ar hynny. Byddwch yn cael adolygiad sylfaenol o'n sefyllfa ariannol beth bynnag, a thoriadau mewn gwario cyhoeddus ar ein gwarthaf.

### Tanau Bwriadol

**C6 William Graham:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thanau bwriadol? OAQ(3)2703(FM)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd 'Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru' yn 2008 ac mae honno'n gosod y glasbrint ar gyfer gweithgarwch amlasiantaeth i fynd i'r afael ag achosi tanau'n fwriadol. Ynghyd â chyllid gwerth bron £9 miliwn er 2004, mae cost achosi tanau bwriadol yng Nghymru, drwy fynd ati ar y cyd fel hyn, wedi gostwng o £60.5 miliwn i £39.8 miliwn rhwng 2004-05 a 2008-09.

**William Graham:** Diolch am eich ateb, Weinidog. Gwyddoch mai'r duedd yn y blynyddoedd diwethaf yw bod nifer y tanau bwriadol maleisus yn cynyddu yn y gwanwyn. Yr ydym wedi gweld rhywfaint o lwyddiant wrth roi'r cynlluniau ar y gweill gyda'r nod o leihau nifer y tanau sy'n cael eu cychwyn, megis Ymgyrch Ffenics a'r cynllun ymyrryd mewn cynnau tanau. Mae'r newyddion bod 15 o danau gwair wedi'u cynnau'n faleisus ar lethrau'r mynydd yng Nghefn Fforest bythefnos yn ôl, a chyfres o ddirgwyddiadau tebyg ledled Nghymru dros y penwythnos, yn ein hatgoffa bod achosi tanau bwriadol yn fygythiad mawr o hyd i bobl ac i eiddo. Weinidog, yr wyf yn croesawu'r sylw yr ydych newydd ei wneud. Pa mor effeithiol gredwch chi fydd y cynlluniau yr haf hwn, gan fod y Swyddfa Dywydd, unwaith eto, yn proffwydo haf anghyffredin o gynnes a sych?

**Jane Hutt:** Dyna gwestiwn pwysig. Er 2007

Since 2007, we have provided £600,000 to the police and to the fire and rescue authorities to tackle grass arson during the spring and summer months. Examples of projects that have been undertaken with that funding include the use of the police helicopter to target fire setters and the co-ordination of surveillance between agencies. We all know that there has to be a multi-agency approach in preventing grass arson and dealing with its consequences. You have mentioned Operation Phoenix, and it is important to note that £1.6 million has been allocated since 2006-07 for dedicated fire-and-rescue-authority-led youth intervention programmes. The Phoenix and Dragon initiatives engage with young offenders or those who might be on the cusp of offending. In addition, almost 900 young people attended an intervention course.

yr ydym wedi rhoi £600,000 i'r heddlu ac i'r awdurdodau tân ac achub i fynd i'r afael â chynnau tanau gwair yn fwriadol yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf. Rhai o'r prosiectau yr ymgwymerwyd â hwy gyda chymorth yr arian hwnnw yw defnyddio hofrennydd yr heddlu i dargedu'r rheini sy'n cynnau'r tanau ac i gydlynu'r gwaith cadw golwg rhwng asiantaethau. Gwyddom i gyd ei bod yn rhaid i'r holl asiantaethau fynd ati i atal cynnau tanau gwair bwriadol ac i ymdrin â'i ganlyniadau. Yr ydych wedi crybwyll Ymgyrch Ffenics, ac mae'n bwysig dweud bod £1.6 miliwn wedi'i ddyrannu er 2006-07 ar gyfer rhaglenni ymyrryd arbennig ar gyfer pobl ifanc dan arweiniad yr awdurdodau tân ac achub. Mae mentrau Ffenics a'r Ddraig yn meithrin cysylltiad â throseddwy'r ifanc neu'r rheini a allai fod ar fin troseddu. Yn ogystal â hynny, mae bron 900 o bobl ifanc wedi bod ar gwrs ymyrryd.

### Priorities

**Q7 Jonathan Morgan:** Will the First Minister make a statement on his Government's priorities for the rest of the third Assembly? OAQ(3)2707(FM)

**Jane Hutt:** Our priorities for the third Assembly are to continue delivering 'One Wales' commitments and our legislative programme, laying foundations for sustainable economic recovery, and we will look to gain more powers for the National Assembly.

**Jonathan Morgan:** A consequence of the fact that the Government has spent the past 11 years reorganising the national health service is that the Government has failed to take a strategic look at what needs to be done to improve the health of the nation. If you compare some of the big indicators of public health, namely the rates of cancer and cancer survival, cardiovascular disease, coronary heart disease, diabetes and obesity with the rest of the UK, we rank at the bottom of the UK league. Likewise, we fare badly in comparison with the rest of the European Union. Bearing in mind that, unless we start

### Blaenoriaethau

**C7 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau ei Lywodraeth ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)2707(FM)

**Jane Hutt:** Ein blaenoriaethau ar gyfer y trydydd Cynulliad yw parhau i wireddu ymrwymïadau 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol, a gosod y sylfeini ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy. A byddwn yn ceisio sicrhau mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Jonathan Morgan:** Un o ganlyniadau'r ffaith fod y Llywodraeth wedi treulio'r 11 mlynedd diwethaf yn ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yw bod y Llywodraeth wedi methu ag edrych yn strategol ar yr hyn y mae angen ei wneud i wella iechyd y genedl. Os cymharwch rai o ddangosyddion mawr iechyd cyhoeddus, megis cyfraddau canser a goroesi canser, clefyd cardiofasgwlaidd, clefyd coronaidd y galon, diabetes a gordewdra â'r sefyllfa yng ngweddill y Deyrnas Unedig, yr ydym ar waelod cynghrair y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd, yr ydym yn cymharu'n wael â gweddill yr

to resolve some of these big health issues, there will be dire consequences, not only for individuals and families but for the ability of public services to deliver for them in the future, will the Assembly Government commit to taking a strategic look, over the next 12 months, at what needs to be done to improve public health?

**Jane Hutt:** Clearly, public health is key in preventing ill health, which relates to the importance of our reformed national health service. The NHS reforms will help to improve people's health, ensure that they have access to high-quality integrated health and social care and ensure that they have a good patient experience by responding flexibly to their needs. It is crucial that the public health programme, which has been driven through by the chief medical officer, is cross-cutting, so that Ministers across the whole Cabinet take responsibility for prevention, in terms of health and wellbeing. Regarding the national service framework for diabetes, for example, we have seen delivery on the empowerment of patients and the self-education and patient management programmes. Also, our health inequalities fund has tackled those issues that relate, in particular, to preventing heart disease. This means that our national service framework for tackling heart disease is also robust on the prevention front.

**Nerys Evans:** Yn eich ateb i Jonathan Morgan, yr oeddech yn dweud mai un o amcanion Llywodraeth Cymru yw ceisio cael pwerau ychwanegol i'r Cynulliad. Un o'r meysydd lle trosglwyddwyd pŵer eisoes yw'r maes sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg. Elfennau pwysig o raglen ddeddfu Llywodraeth Cymru yw'r elfennau yn ymwneud â'r iaith. Yr wyf yn croesawu cyhoeddi'r Mesur drafft yr wythnos diwethaf ar y drefn newydd a fyddai'n rhoi'r hawl i bobl dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, cadarnhau statws swyddogol i'r iaith a chreu swyddfa comisiynydd cryf i

Undeb Ewropeaidd. A chofio, oni ddechreuwn ddatrys rhai o'r problemau iechyd mawr hyn, y bydd canlyniadau difrifol, nid yn unig i unigolion a theluoedd ond i allu gwasanaethau cyhoeddus i ddarparu ar eu cyfer yn y dyfodol, a wnaiff Llywodraeth y Cynulliad ymrwymo i edrych yn strategol, dros y 12 mis nesaf, ar yr hyn y mae angen ei wneud i wella iechyd cyhoeddus?

**Jane Hutt:** Mae'n amlwg fod iechyd cyhoeddus yn allweddol i atal afiechyd, sy'n gysylltiedig â phwysigrwydd ein gwasanaeth iechyd gwladol diwygiedig. Bydd diwygiadau'r GIG yn gymorth i wella iechyd pobl, i sicrhau bod gofal iechyd a gofal cymdeithasol integredig o safon ar gael iddynt, a bod profiad cleifion yn brofiad da drwy ymateb yn hyblyg i'w hanghenion. Mae'n hollbwysig i'r rhaglen iechyd cyhoeddus, sydd wedi'i sbarduno gan y prif swyddog meddygol, fod yn drawsbynciol, er mwyn i holl Weinidogion y Cabinet ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros atal, o ran iechyd a lles. O ran fframwaith y gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes, er enghraifft, yr ydym wedi gweld camau i rymuso cleifion a hunan-addysgu a hefyd raglenni rheoli cleifion. Hefyd, mae ein cronfa anghydraddoldebau iechyd wedi mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n benodol berthnasol i atal clefyd y galon. Mae hyn yn golygu bod ein fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer mynd i'r afael â chlefyd y galon yn gadarn hefyd o safbwynt atal.

**Nerys Evans:** In your response to Jonathan Morgan you mentioned that one of the Welsh Government's objectives is to secure further powers for the Assembly. One of the areas where power has already been transferred is that of the Welsh language. Some of the important elements of the Welsh Government's legislative programme are those related to the Welsh language. I welcome the publication of the draft Measure last week, which would give people the right to receive services through the medium of Welsh, confirm the official status of the language and create a strong commissioner to

amddiffyn yr iaith. A ydych yn cytuno bod hwn yn gam hanesyddol i ni fel cenedl ac yn un sy'n gwireddu amcanion 'Cymru'n Un', gan gynnwys cadarnhau statws swyddogol yr iaith Gymraeg?

**Jane Hutt:** Yes, it is historic and it achieves the objective of confirming the official status of the Welsh language.

**Jenny Randerson:** Minister, one of the priorities of your Government was to maintain the air link between north and south Wales. Last week, we heard that there were no suitable bidders to provide this service in the future. Could you tell us whether discussions with Highland Airways are continuing, and if not, what strategy your Government is following to pursue this issue? Also, if your discussions with Highland Airways are continuing, are you satisfied, as a Government, that you should be talking to the company in view of its considerable financial difficulties?

**Jane Hutt:** Discussions are continuing, and the Deputy First Minister is engaged in this process. As you know, the contract for the Cardiff-Anglesey air link is up for reconsideration and I am sure that it will be considered shortly.

**Brian Gibbons:** Would you agree, Minister, that one of the most innovative and radical public health initiatives in Wales has been the introduction of free prescriptions by the Assembly Government? Free prescriptions allow for stroke prevention and the treatment of heart disease, cancer and lung disease with multiple prescriptions. If we are talking about tackling public health issues in Wales, would you agree that free prescriptions constitute one of the major planks in addressing these issues?

**Jane Hutt:** I agree with you, Brian. You mentioned two areas where multiple prescriptions have been necessary: strokes and cancer. Moreover, if you recall the

protect the language. Do you agree that this is a historic step forward for us as a nation and one which achieves the objectives of 'One Wales' and confirms the official status of the Welsh language?

**Jane Hutt:** Ydwyf, mae'n hanesyddol ac mae'n cyflawni'r amcan o gadarnhau statws swyddogol y Gymraeg.

**Jenny Randerson:** Weinidog, un o flaenoriaethau eich Llywodraeth oedd cynnal y cysylltiad awyr rhwng y gogledd a'r de. Clywsom yr wythnos diwethaf nad oedd ymgeiswyr addas ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol. A allech ddweud wrthym a yw'r trafodaethau gyda Highland Airways yn parhau, ac os nad ydynt, pa strategaeth y mae eich Llywodraeth yn ei dilyn i fynd ar drywydd hyn? Hefyd, os yw eich trafodaethau gyda Highland Airways yn parhau, a ydych yn fodlon y dylech chi, fel Llywodraeth, fod yn siarad â'r cwmni o ystyried ei anawsterau ariannol sylweddol?

**Jane Hutt:** Mae'r trafodaethau'n mynd rhagddynt, ac mae'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymwneud â'r broses hon. Fel y gwyddoch, mae'n bryd ailystyried y contract ar gyfer y cysylltiad awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn, ac yr wyf yn siŵr y caiff ei ystyried cyn hir.

**Brian Gibbons:** A fydddech yn cytuno, Weinidog, mai un o'r cynlluniau iechyd cyhoeddus mwyaf arloesol a radical oedd cyflwyno presgripsiynau am ddim gan Lywodraeth y Cynulliad?. Mae presgripsiynau am ddim yn gymorth i atal strôc ac i drin clefyd y galon, canser a chlefyd yr ysgyfaint drwy roi nifer o bresgripsiynau i'r claf. Os ydym yn sôn am fynd i'r afael â materion iechyd cyhoeddus yng Nghymru, a fydddech yn cytuno mai presgripsiynau am ddim yw un o'r prif ddulliau o fynd i'r afael â'r materion hyn?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn cytuno â chi, Brian. Crybwyllwyd dau faes gennych lle mae rhoi nifer o bresgripsiynau i glaf wedi bod yn ofynnol: strôc a chanser. At hynny, os

debates on introducing free prescriptions, you will recall the evidence that we had from organisations like Citizens Advice on dealing with debt, as well as how many people were eligible for prescriptions but were not taking advantage of them because they could not afford it. They had to make a choice. On April 1, the prescription charge in England will be going up; I am not sure by how much, but way over the £6 level. We are intervening to ensure—this relates to Jonathan’s question entirely—that we protect against and prevent ill health, and that we support people with life-limiting illnesses and conditions. Free prescriptions help them function, work and contribute to the economy, as well as helping their families and communities.

cofiwch y dadleuon ynglŷn â chyflwyno presgripsiynau am ddim, byddwch yn cofio'r dystiolaeth a gawsom gan sefydliadau megis Cyngor ar Bopeth ynglŷn ag ymdrin â dyled, yn ogystal â faint o bobl a oedd yn gymwys i gael presgripsiynau ond nad oeddent yn manteisio arnynt am na allent eu fforddio. Yr oedd yn rhaid iddynt ddewis. Ar 1 Ebrill, bydd y tâl am bresgripsiwn yn cynyddu yn Lloegr; nid wyf yn siŵr faint, ond bydd ymhell dros £6. Yr ydym ni'n ymyrryd i sicrhau—ac mae hyn yn gwbl berthnasol i gwestiwn Jonathan—ein bod yn gwarchod rhag afiechyd ac yn ei atal, a'n bod yn cynorthwyo pobl sy'n dioddef gan afiechydon a chyflyrau sy'n cyfyngu ar eu bywyd. Bydd presgripsiynau am ddim yn gymorth iddynt fyw, gweithio a chyfrannu at yr economi, yn ogystal â chynorthwyo'u teuluoedd a'u cymunedau.

11.30 a.m.

### **Economic Summits**

**Q8 Brian Gibbons:** Will the First Minister make a statement on how the Welsh Assembly Government will build on the work of the economic summits? OAQ(3)2705(FM)

**Jane Hutt:** We are consulting with stakeholders on how we can take what has worked so successfully through the economic summits and translate that into improved arrangements for working together with the business community and with other social partners.

**Brian Gibbons:** Would you agree that one of the big lessons of the economic summits is the need for strong, proactive Government? Do you further agree that whereas some would argue that the role of Government is overbearing, the work that took place at the economic summits clearly demonstrates the role of Government, working on a partnership basis with the private and third sectors and the key partner of the trade union movement?

### **Uwchgynadleddau Economaidd**

**C8 Brian Gibbons:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y modd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adeiladu ar waith yr uwchgynadleddau economaidd? OAQ(3)2705(FM)

**Jane Hutt:** Yr ydym yn ymgynghori â rhanddeiliaid am y modd y gallwn fwrw ymlaen â'r hyn sydd wedi gweithio mor llwyddiannus drwy'r uwchgynadleddau economaidd, a throi hynny'n drefniadau gwell er mwyn cydweithio â'r gymuned fusnes ac â phartneriaid cymdeithasol eraill.

**Brian Gibbons:** A fyddech yn cytuno mai un o'r gwersi mawr a ddysgwyd drwy'r uwchgynadleddau yw bod angen Llywodraeth gref a rhagweithiol? A ydych yn cytuno hefyd, er y byddai rhai'n dadlau bod rôl Llywodraeth yn ormesol, bod y gwaith a wnaethpwyd yn yr uwchgynadleddau economaidd yn dangos rôl Llywodraeth yn glir, yn gweithio ar sail partneriaeth gyda'r sector preifat a'r trydydd sector a'r partner allweddol sef mudiad yr undebau llafur?

**Jane Hutt:** I certainly would agree. I said that there is a consultation on the way forward for the economic summits. We have just had our first public service summit, which engaged the public sector, based on the team Wales partnership approach of the economic summits. The consensus so far is that the summits have been enormously successful. That response is from the private sector as well as from our partners in the trade union movement and the public sector. They want to ensure that there is no dilution of the commitment of the Welsh Assembly Government to engage with them in terms of taking this forward.

ProAct has been mentioned today and Kirsty tried to say that ProAct is not achieving what it set out to achieve. In fact, it has exceeded what it set out to achieve. It resulted from an economic summit and from the private sector saying, 'We want the Government to intervene now to help to keep us in business and to upskill us if we have to go to short-time working'. We introduced both the training and the wage subsidy to ensure that.

When it comes down to it, the 67 economists who wrote to the *Financial Times* only a couple of weeks ago said that we had to support our Treasury's current position and ensure that we did not cut back the budget deficit this year, which would pull the country back into recession. I fear that that is what the prospect would be if we were to follow the policies of those on the other side of the Chamber.

**Andrew R.T. Davies:** In your long response to that question from Brian Gibbons, you touched on the public service summit that was held recently, as part of the Government's strategy to drive through synergies between public sector services. Sadly, we have just heard that the south-east Wales shared services project has collapsed. That is a small project compared with some

**Jane Hutt:** Byddwn yn sicr yn cytuno. Dywedais y bydd ymgynghori am y modd i fwrw ymlaen â'r uwchgynadleddau economaidd. Yr ydym newydd gael ein huwchgynhadledd gyntaf ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan feithrin cysylltiad â'r sector cyhoeddus, ar sail dull partneriaeth tîm Cymru yn yr uwchgynadleddau economaidd. Y consensws hyd yn hyn yw bod yr uwchgynadleddau wedi bod yn aruthrol o lwyddiannus. Dyna yw ymateb y sector preifat yn ogystal â'n partneriaid yn y mudiad undebau llafur a'r sector cyhoeddus. Maent am sicrhau na fydd ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i feithrin cysylltiad â hwy yn cael ei lastwreiddio o ran bwrw ymlaen â hyn.

Crybwyllwyd ProAct heddiw, a cheisiodd Kirsty ddweud nad yw ProAct yn cyflawni'r hyn y bwriadwyd iddo'i gyflawni. A dweud y gwir, mae wedi rhagori ar yr hyn y bwriadwyd iddo'i gyflawni. Fe'i crewyd yn sgil uwchgynhadledd economaidd a chais gan y sector preifat yn dweud, 'Yr ydym am i'r Llywodraeth ymyrryd yn awr i'n cynorthwyo i'n ddal mewn busnes ac i wella'n sgiliau os bydd rhaid inni weithio wythnos fyrrach'. Darparwyd yr hyfforddiant a'r cymhorthdal cyflogau gennym er mwyn sicrhau hynny.

Y gwir yw bod y 67 o economegwyr a ysgrifennodd at y *Financial Times* brin bythefnos yn ôl wedi dweud ei bod yn rhaid inni gefnogi safbwynt presennol ein Trysorlys, a sicrhau na fyddem yn ceisio tocio'r diffyg yn y gyllideb eleni, gan y byddai hynny'n tynnu'r wlad yn ôl i ddirwasgiad. Ofnaf mai dyna fyddai'r rhagolygon petaem yn dilyn polisiau'r rheini ar ochr arall y Siambr.

**Andrew R.T. Davies:** Yn eich ymateb maith i'r cwestiwn hwnnw gan Brian Gibbons, crybwyllwyd gennych yr uwchgynhadledd ar wasanaethau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar, fel rhan o strategaeth y Llywodraeth i sbarduno cydweithio rhwng gwasanaethau'r sector cyhoeddus. Yn anffodus, yr ydym newydd glywed bod y prosiect rhannu gwasanaethau yn ne-



of the cross-working that you would hope to achieve in the public sector. With the collapse of that project, how will the Government work with local authorities to drive through those efficiencies so that the efficiencies that you talk about week in, week out here are delivered and so that council tax payers can receive minimal increases in their council tax?

**Jane Hutt:** That is a pertinent question to put to those of us who were there, including me, Carl Sargeant and the First Minister, who led the public services summit. You can be assured that the message from each of us is that we now have to drive up the efficiency and innovation agenda. We are talking about efficiency and innovation, as well as collaboration. I am sure that Carl Sargeant will have more to say about that when he answers his questions.

We can also point to good examples of collaboration, for example, between health and social care. Sometimes that is done at a team level. For example, the local service board in Carmarthenshire seeks joint appointments. We could also look to the collaboration between the Welsh Assembly Government and the Welsh Local Government Association on the twenty-first century schools. Councillor Peter Fox, the Conservative leader of Monmouthshire County Council, is upfront and on board with that. There is also the collaboration on waste. Of course we need to drive home the efficiency and innovation agenda message.

**Bethan Jenkins:** Does the Welsh Government believe, following the first public sector service Wales summit recently, that local authorities can make substantial savings without taking an axe to front-line public services? Was that discussed at the

ddwyrain Cymru wedi chwalu. Prosiect bychan yw hwnnw o'i gymharu â rhai o'r cynlluniau trawsweithio y byddech yn gobeithio'u sicrhau yn y sector cyhoeddus. Gan fod y prosiect hwnnw wedi chwalu, sut y bydd y Llywodraeth yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sbarduno'r effeithlonrwydd hwnnw er mwyn gwireddu'r arbedion yr ydych yn sôn amdanynt wythnos ar ôl wythnos yma ac er mwyn i bobl sy'n talu'r dreth cyngor weld y cynnydd lleiaf posibl yn y dreth honno?

**Jane Hutt:** Mae hwnnw'n gwestiwn perthnasol i'w ofyn i'r rheini ohonom a oedd yno, gan fy nghynnwys i, Carl Sargeant a'r Prif Weinidog, a arweiniodd yr uwchgynhadledd ar wasanaethau cyhoeddus. Gallwch fod yn dawel eich meddwl mai'r neges gan bob un ohonom yw ei bod yn rhaid inni'n awr roi hwb i'r agenda effeithlonrwydd ac arloesi. Yr ydym yn sôn am effeithlonrwydd ac arloesi, yn ogystal ag am gydweithredu. Yr wyf yn siŵr y bydd gan Carl Sargeant fwy i'w ddweud am hynny pan fydd yn ateb ei gwestiynau yntau.

Gallwn sôn hefyd am enghreifftiau da o gydweithredu, er enghraifft, rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Weithiau gwneir hyn ar lefel tîm. Er enghraifft, mae'r bwrdd gwasanaethau lleol yn sir Gaerfyrddin yn ceisio gwneud penodiadau ar y cyd. Gallem hefyd sôn am y cydweithredu rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yng nghyswllt ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r Cynghorydd Peter Fox, arweinydd Ceidwadol Cyngor Sir Fynwy, yn frwd ynglŷn â hynny ac yn ei gefnogi. Mae'r cydweithredu ym maes gwastraff yn enghraifft arall. Wrth gwrs mae angen inni bwysleisio neges yr agenda effeithlonrwydd ac arloesi.

**Bethan Jenkins:** A yw Llywodraeth Cymru'n credu, ar ôl uwchgynhadledd gyntaf Cymru ar wasanaethau'r sector cyhoeddus yn ddiweddar, y gall awdurdodau lleol arbed arian sylweddol heb orfod taflu bwyell at wasanaethau cyhoeddus rheng flaen? A

summit? Will it be discussed again?

drafodwyd hynny yn yr uwchgynhadledd? A gaiff ei drafod eto?

Can you tell me when the efficiency and innovation board will be meeting next, what its membership and remit will be, and whether Assembly Members can be involved in this process? I found out about the summit via the Wales Business Insider e-mail. I would like to be involved in future meetings. Assembly Members do have contact with front-line workers in our areas. How can backbench Assembly Members take a proactive role in the work that the Government is doing on this?

A allwch ddweud wrthyf pa bryd y bydd y bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi'n cyfarfod nesaf, pwy fydd yr aelodau a beth fydd ei gylch gorchwyl, ac a all Aelodau'r Cynulliad ymwneud â'r broses hon? Cefais wybod am yr uwchgynhadledd drwy e-bost Wales Business Insider. Hoffwn fod yn rhan o gyfarfodydd yn y dyfodol. Bydd Aelodau Cynulliad yn cysylltu â gweithwyr rheng flaen yn ein hardaloedd. Sut y gall Aelodau meinciau cefn y Cynulliad gael rôl ragweithiol yn y gwaith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn y maes hwn?

**Jane Hutt:** The way in which the Government will protect front-line services and those who work in services is important. The public services summit is the way forward. We successfully brought people together through the economic summit process, and that is what we are doing through the public services summit. That includes not only local government, but the health service and the whole of the public sector. The efficiency and innovation board, which I will chair, includes representatives from local government, the health service, and the Wales Trades Union Congress, and will ensure that the Government is driving this through. I will certainly want to report on progress.

**Jane Hutt:** Mae'r ffordd y bydd y Llywodraeth yn gwarchod gwasanaethau rheng flaen, a phobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau, yn bwysig. Yr uwchgynhadledd ar wasanaethau cyhoeddus yw'r ffordd ymlaen. Llwyddwyd i ddod â phobl at ei gilydd drwy broses yr uwchgynhadledd economaidd, a dyna'r ydym yn ei wneud drwy'r uwchgynhadledd ar wasanaethau cyhoeddus. Mae hynny'n cynnwys nid yn unig lywodraeth leol, ond y gwasanaeth iechyd a'r sector cyhoeddus drwyddo draw. Mae'r bwrdd effeithlonrwydd ac arloesi, y byddaf yn ei gadeirio, yn cynnwys cynrychiolwyr llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a Chyngres Undebau Llafur Cymru, a bydd yn sicrhau bod y Llywodraeth yn bwrw ymlaen â hyn. Byddaf yn sicr am gyflwyno adroddiad am y cynnydd.

### **Eradication of Poverty**

### **Dileu Tlodi**

**Q9 Leanne Wood:** What recent representations has the First Minister received regarding the eradication of poverty in Wales? OAQ(3)2714(FM)

**C9 Leanne Wood:** Pa sylwadau a gafodd y Prif Weinidog yn ddiweddar ynghylch dileu tlodi yng Nghymru? OAQ(3)2714(FM)

**Jane Hutt:** I have received a number of representations on a range of areas that relate to the eradication of poverty in Wales. For example, a recent report was published by Save the Children on child poverty in the UK.

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cael nifer o sylwadau ar amrywiaeth o feysydd yn ymwneud â dileu tlodi yng Nghymru. Er enghraifft, cyhoeddwyd adroddiad gan Achub y Plant yn ddiweddar am dlodi plant yn y DU.

**Leanne Wood:** The eradication of child poverty is a key aim of the Welsh Assembly Government, and rightly so. However, unfortunately, the recession is undermining much of the work that is being carried out, as more and more people become unemployed. It is a sad fact—it gives me no pleasure to inform you of it—that a food bank network has sprung up in Wales in order to distribute emergency food supplies to those who live below the breadline. Ten food banks have already been established in areas that include the Rhondda and Pontyclun in my region. There are plans to roll out more in the near future.

The network has been established by the Trussell Trust and works by donating three days' worth of nutritionally balanced food in exchange for vouchers distributed by partner agencies. Minister, will you join me in commending the Trussell Trust on setting up this programme and attempting to alleviate the crushing poverty of people in dire need? Will you also agree to look at ways in which the Assembly Government can take the strain off what is essentially an emergency service run on a voluntary basis?

**Jane Hutt:** I certainly welcome the contribution that is being made by food banking in tackling food poverty. Clearly, we want to encourage the expansion of the food bank network. We fund the food co-operative network in Wales. In fact, it has received £450,000 this year, and every year since 2008. We have committed to that for next year. Therefore, there is a link that can be explored between the food banking network and the food co-operative network. I know that that link is being explored further.

**Alun Cairns:** I would also like to ask about child poverty. If you are a child living in Wales, not only are you more likely to leave school with fewer qualifications, and your parents more likely to be unemployed, you

**Leanne Wood:** Dileu tlodi plant yw un o amcanion allweddol Llywodraeth y Cynulliad, ac mae hynny'n gwbl iawn. Fodd bynnag, yn anffodus mae'r dirwasgiad yn tanseilio llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud, wrth i fwy a mwy o bobl golli eu gwaith. Mae'n ffaith drist—nid yw'n rhoi dim pleser imi ddweud hyn wrthyich—fod rhwydwaith banciau bwyd wedi datblygu yng Nghymru i ddosbarthu cyflenwadau bwyd mewn argyfwng i bobl sy'n byw mewn tlodi. Mae deg banc bwyd wedi'u sefydlu eisoes mewn ardaloedd sy'n cynnwys Rhondda a Phont-y-clun yn fy rhanbarth i. Mae cynlluniau ar y gweill i sefydlu mwy ohonynt yn y dyfodol agos.

Mae'r rhwydwaith wedi'i sefydlu gan Ymddiriedolaeth Trussell, ac mae'n gweithio drwy gyfrannu gwerth tridiau o fwyd cytbwys ei faeth yn gyfnewid am dalebau a rennir gan asiantaethau partner. Weinidog, a ymunwch â mi i gymeradwyo Ymddiriedolaeth Trussell am sefydlu'r rhaglen hon a cheisio lliniaru tlodi dinistriol ymhlith pobl anghenus iawn? A gytunwch i edrych sut y gall Llywodraeth y Cynulliad ysgwyddo rhywfaint o'r straen ar wasanaeth sydd yn ei hanfod yn wasanaeth argyfwng gwirfoddol?

**Jane Hutt:** Yr wyf yn sicr yn croesawu cyfraniad y banciau bwyd wrth fynd i'r afael â thlodi bwyd. Mae'n amlwg ein bod am annog ehangu'r rhwydwaith banciau bwyd. Yr ydym yn noddi'r rhwydwaith bwyd cydweithredol yng Nghymru. A dweud y gwir, mae wedi cael £450,000 eleni, a bob blwyddyn er 2008. Yr ydym wedi ymrwymo i hynny ar gyfer y flwyddyn nesaf. Felly, mae cysylltiad y gellir ei archwilio rhwng y rhwydwaith banciau bwyd a'r rhwydwaith bwyd cydweithredol. Gwn fod y cysylltiad hwnnw'n cael ei archwilio ymhellach.

**Alun Cairns:** Hoffwn i hefyd eich holi am dlodi plant. Os ydych yn blentyn yn byw yng Nghymru, nid yn unig yr ydych yn fwy tebygol o adael yr ysgol â llai o gymwysterau, a'ch rhieni'n fwy tebygol o

are also at a much higher risk of being in child poverty, whichever measure is used. An Assembly Member has raised a question, to which you responded, about the fact that food banks are being used in Wales in the twenty-first century. Your administration and the Westminster Government should be ashamed. Are you happy with your progress, or lack of progress, in eradicating child poverty in Wales?

fod yn ddi-waith, ond mae llawer mwy o berygl hefyd i chi fod yn blentyn sy'n byw mewn tlogi, pa fesur bynnag a ddefnyddir. Mae un Aelod Cynulliad wedi codi cwestiwn, a atebwyd gennych, am y ffaith fod banciau bwyd yn cael eu defnyddio yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain. Dylai fod cywilydd ar eich gweinyddiaeth ac ar Lywodraeth San Steffan. A ydych yn fodlon ar eich cynnydd, neu eich diffyg cynnydd, wrth ddileu tlogi plant yng Nghymru?

11.40 a.m.

If you measure it in terms of those living in low-income households, Wales is much higher. If you measure it according to low incomes that are materially deprived by region, Wales is much higher. If you measure it in terms of children living in workless households, Wales is, again, much higher. Are you satisfied that you have done everything, or are you prepared to apologise for the shameful figures and data that you are presenting? It is an absolute outrage.

O'i fesur yn ôl y rheini sy'n byw ar aelwydydd incwm isel, mae Cymru'n uwch o lawer. O'i fesur yn ôl incymau isel a phobl sy'n ddi-fraint o ran pethau materol ar sail rhanbarth, mae Cymru'n uwch o lawer. O'i fesur yn ôl plant sy'n byw ar aelwydydd di-waith, mae Cymru, unwaith eto, yn uwch o lawer. A ydych yn fodlon eich bod wedi gwneud popeth, ynteu a ydych yn barod i ymddiheuro am y ffigurau a'r data cywilyddus yr ydych yn eu cyflwyno? Mae'n gwbl warthus.

**Jane Hutt:** That is from a man whose party wants to abolish free prescriptions, as we have just discussed. He wants to abolish free breakfasts for children—we talked about the breakfast snatchers earlier today—in every community where a primary school has taken on this initiative and where children are benefiting from a free breakfast as an early start to the day. We have provided free prescriptions and free breakfasts.

**Jane Hutt:** A daw hynny gan ddyn y mae ei blaid am ddileu presgripsiynau am ddim, fel yr ydym newydd sôn. Mae am ddileu brecwastau am ddim i blant—buom yn sôn gynnuau am y rheini sydd am ddwyn brecwastau oddi ar blant—ym mhob cymuned lle mae ysgol gynradd wedi manteisio ar y cynllun hwn a lle mae'r plant yn cael budd o frewast am ddim ar ddechrau'r diwrnod. Yr ydym ni wedi darparu presgripsiynau am ddim a brecwastau am ddim.

Ours is a Government that takes action, and not just in terms of allocating funding. Why else did this Government bring forward legislative proposals to tackle child poverty on a mandatory, statutory basis for all devolved public bodies in Wales? It was this Government that brought that forward, and we are the first of the four Governments in the UK to have done so.

Llywodraeth sy'n gweithredu yw ein Llywodraeth ni, ac nid drwy ddyrannu arian yn unig. Pa reswm arall oedd gan y llywodraeth hon dros gyflwyno cynigion deddfu i fynd i'r afael â thlogi plant ar sail fandadol statudol i bob corff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru? Y Llywodraeth hon a gyflwynodd hynny, a ni yw'r cyntaf o'r pedair Llywodraeth yn y Deyrnas Unedig i wneud hynny.

## Costau Parcio i Bobl Anabl

**C10 David Lloyd:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gostau parcio i bobl anabl? OAQ(3)2701(FM)

**Jane Hutt:** Local authorities are responsible for on-street and some off-street car parking. It is for them to consider the level of car parking charges and the need for any dispensation or waiver from the charge for disabled people.

**David Lloyd:** Diolch am yr ateb hwnnw. Pa gyfarwyddyd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi i awdurdodau lleol ynglŷn ag unrhyw bosibilrwydd o godi taliadau am barcio i ddeiliaid bathodynau anabl?

**Jane Hutt:** It is important that we recognise that local authorities are responsible for planning parking strategies. That is set out, of course, in the regional transport plans. Authorities are able to put in place exemptions from any charges for parking for blue badge holders. It is a matter for local authorities in the light of local circumstances.

The blue badge review, however, is looking at a programme of change to modernise the blue badge scheme in Wales, and we hope that it will include proposals, as it does, for looking at extending the free three-hour waiting time limit for parking on double yellow lines.

**Darren Millar:** Minister, another group of people who would benefit from parking privileges is pregnant women. According to the Royal College of Midwives, the UK's largest parenting club, Bounty, and *Prima* magazine, the magazine for parents and mums to be, there is a growing body of evidence to suggest that pregnant women would benefit significantly from that. What action is the Assembly Government taking to explore opportunities to support pregnant women with parking privileges in Wales?

## Car Park Charges for the Disabled

**Q10 David Lloyd:** Will the First Minister make a statement on car park charges for the disabled? OAQ(3)2701(FM)

**Jane Hutt:** Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am barcio ar y stryd a rhywfaint o barcio oddi ar y stryd. Eu cyfrifoldeb hwy yw ystyried taliadau meysydd parcio ac a oes angen cyflwyno parcio rhatach neu barcio am ddim i bobl anabl.

**David Lloyd:** Thank you for that answer. What guidance has the Assembly Government given to local authorities about any possibility of charging for parking for disabled badge holders?

**Jane Hutt:** Mae'n bwysig inni sylweddoli mai awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio strategaethau parcio. Mae hynny wrth gwrs wedi'i gynnwys yn y cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol. Gall awdurdodau gyflwyno eithriadau rhag unrhyw daliadau am barcio i ddeiliaid bathodyn glas. Gwaith yr awdurdodau lleol fydd penderfynu hynny yng ngoleuni amgylchiadau lleol.

Fodd bynnag, mae'r adolygiad o fathodynau glas yn edrych ar raglen o newid i foderneiddio'r cynllun bathodynau glas yng Nghymru, a gobeithio y bydd yn cynnwys cynigion, fel y mae, i ystyried estyn y cyfnod aros am ddim o deirawr ar gyfer parcio ar linellau melyn dwbl.

**Darren Millar:** Weinidog, grŵp arall o bobl a fyddai'n elwa o freintiau parcio fyddai menywod beichiog. Yn ôl Coleg Brenhinol y Bydwagedd, clwb rhianta mwyaf y Deyrnas Unedig, Bounty, a'r cylchgrawn *Prima*, y cylchgrawn i ddarpar rieni a mamau, mae mwy a mwy o dystiolaeth yn awgrymu y byddai menywod beichiog yn elwa'n sylweddol o hynny. Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i archwilio cyfleoedd i gynorthwyo menywod beichiog drwy roi breintiau parcio iddynt yng Nghymru?

**Jane Hutt:** In the response to the consultation under the blue badge review, that will be another group of people who, I am sure, could be considered in terms of benefiting from such parking strategies, which local authorities are responsible for.

**Jane Hutt:** Yn yr ymateb i'r ymgynghori dan yr adolygiad bathodynnew glas, dyna grŵp arall o bobl a allai, yr wyf yn siŵr, gael eu hystyried o ran elwa o strategaethau parcio o'r fath y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions to the Minister for Social Justice and Local Government**

**The Presiding Officer:** I call Val Lloyd to ask question 1.

**Y Llywydd:** Galwaf ar Val Lloyd i ofyn cwestiwn 1.

**Val Lloyd:** Minister, the Local Government (Wales) Measure 2009 expands on the concepts developed in the Wales—

**Val Lloyd:** Weinidog, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ehangu ar y cysyniadau a ddatblygwyd yng Nghymru—

**Ann Jones:** You have to ask your tabled question.

**Ann Jones:** Rhaid ichi ofyn y cwestiwn a gyflwynwyd gennych.

**Val Lloyd:** I apologise. It is the excitement. I will start again, Minister. I apologise—it was the excitement at this being your first question.

**Val Lloyd:** Mae'n ddrwg gennyf. Y cyffro sy'n gyfrifol. Dechreuaf eto, Weinidog. Mae'n ddrwg gennyf—yr oeddwn wedi fy nghyffroi am mai dyma'ch cwestiwn cyntaf.

#### **Fire and Rescue Service**

#### **Gwasanaeth Tân ac Achub**

**Q1** What is the Welsh Assembly Government doing to support the fire and rescue service in Wales? OAQ(3)1091(SJL)

**C1** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi'r gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru? OAQ(3)1091(SJL)

**The Minister for Social Justice and Local Government (Carl Sargeant):** First, I thank those who wished me well in the form of get well cards and other messages that I received the other week, but I am back, Presiding Officer. [MEMBERS: 'Hear, hear.']

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Yn gyntaf, diolch i'r rheini a ddymunodd yn dda imi ar ffurf cardiau gwella a negeseuon yr wythnos o'r blaen, ond yr wyf yn ôl, Lywydd. [AELODAU: 'Clywch, clywch.']

The fire and rescue national framework sets out our expectations of fire and rescue authorities and the support that we will provide. In 2009-10, we will provide £27 million to authorities, over and above the funding that they receive from their constituent local authorities, to take forward specific framework commitments.

Mae'r fframwaith tân ac achub cenedlaethol yn esbonio'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan awdurdodau tân ac achub a'r gefnogaeth y byddwn yn ei rhoi. Yn 2009-10, byddwn yn rhoi £27 miliwn i awdurdodau, ar ben yr arian a gânt gan yr awdurdodau lleol sydd yn eu dalgylch, er mwyn bwrw ymlaen ag ymrwymadau penodol yn y fframwaith.

**Val Lloyd:** The Local Government (Wales) Measure 2009 expands on the concepts

**Val Lloyd:** Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ehangu ar y cysyniadau a

developed in the Wales programme for improvement, and requires fire and rescue authorities, as Welsh improvement authorities, to comply with the set improvement indicators and standards. The fire and rescue authorities can also determine their own improvement objectives under a number of wide-ranging headings, such as improving the quality and availability of services and improving the efficiency of services and functions. What is the Welsh Assembly Government doing to assist FRAs to implement these changes?

**Carl Sargeant:** The fire and rescue national framework sets out the goals and objectives for the service, and includes guidance on risk reduction and planning. It sets out how FRAs should plan service provision within the area, and the engagement that they should undertake with the communities that they serve before finalising their proposals. I will be meeting with the chief and chairs of the FRAs during April to discuss issues of mutual interest, which is part of an ongoing dialogue that also informs the forum of key stakeholders that is convened regularly to advise me on how these issues are affecting the service. So, I am keen to understand the pressures that the authorities are under, and we will continue to work with them to resolve these issues.

**Mark Isherwood:** It is good to see you in the Chamber, Carl, and welcome to your new role. It was reported this weekend that fire crews attended over 100 grass fires across Wales, the largest being in Bangor, Gwynedd, but also in Gower and Rhondda Cynon Taf. What action are you taking to engage with the three fire and rescue services in Wales and the other emergency services to identify and address the causes of this, when concerns have been raised that cover is being stretched to the limit and that the lives of the public and firefighters have been put at risk?

ddatblygwyd yn rhaglen Cymru ar gyfer gwella, ac mae'n mynnu bod awdurdodau tân ac achub, fel awdurdodau gwella Cymru, yn cydymffurfio â'r dangosyddion a'r safonau gwella a bennwyd. Gall yr awdurdodau tân ac achub bennu eu hamcanion gwella eu hunain hefyd dan nifer o benawdau eang eu cwmpas, megis gwella ansawdd gwasanaethau, gwella'r gwasanaethau sydd ar gael a gwneud gwasanaethau a swyddogaethau'n fwy effeithlon. Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i gynorthwyo Awdurdodau Tân ac Achub i roi'r newidiadau hyn ar waith?

**Carl Sargeant:** Mae'r fframwaith tân ac achub cenedlaethol yn rhestru'r nodau a'r amcanion ar gyfer y gwasanaeth, ac mae'n cynnwys canllawiau ar leihau risg a chynllunio. Mae'n dweud sut y dylai Awdurdodau Tân ac Achub gynllunio'r gwasanaethau a ddarperir yn yr ardal, a sut y dylent feithrin cysylltiad â'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu cyn llunio'u cynigion terfynol. Byddaf yn cyfarfod â phennaeth a chadeirydd pob Awdurdod Tân ac Achub yn ystod mis Ebrill i drafod materion sydd o ddiddordeb i bawb, a bydd hynny'n rhan o ddeialog barhaus a fydd yn bwydo gwybodaeth i fforwm y rhanddeiliaid allweddol a gynullir yn rheolaidd i roi gwybod imi sut mae'r materion hyn yn effeithio ar y gwasanaeth. Felly, yr wyf yn awyddus i ddeall y pwysau y mae'r awdurdodau'n eu hwynebu, a byddwn yn parhau i weithio gyda hwy i ddatrys y materion hyn.

**Mark Isherwood:** Mae'n dda eich gweld yn y Siambr, Carl, a chroeso i'ch swydd newydd. Adroddwyd y penwythnos yma fod criwiau tân wedi ymdrin â dros 100 o danau gwair ar hyd a lled Cymru, y mwyaf ohonynt ym Mangor, Gwynedd, ond hefyd ar Benrhyn Gŵyr ac yn Rhondda Cynon Taf. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i drafod gyda'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru a chyda'r gwasanaethau brys eraill i ddarganfod achos y tanau hyn ac i fynd i'r afael â hwy. Mae pobl yn poeni bod y gwasanaeth yn cael ei ymestyn i'r eithaf a

bod bywydau'r cyhoedd ac ymladdwyr tân wedi'u rhoi mewn perygl?

**Carl Sargeant:** I commend the fire and rescue services across Wales, who have received over 1500 calls for grassland and mountain fires in the last 72 hours. Police and fire officers continue to work together to deliver the anti-grass and mountain fire educational DVD initiative to key stage 3 pupils in schools across Wales. They have targeted areas that have traditionally been affected by a high number of grass and mountain fires. A deliberate fire is anti-social behaviour and a crime, and I urge anyone with relevant information on these firestarters to contact Crimestoppers.

**Carl Sargeant:** Cymeradwyaf y gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru. Maent wedi cael dros 1500 o alwadau i ymdrin â thanau ar weirdir a thir mynydd yn y 72 awr diwethaf. Mae'r heddlu a'r swyddogion tân yn dal i gydweithio i gyflwyno'r cynllun DVD addysgiadol i ddisgyblion cyfnod allweddol 3 mewn ysgolion ledled Cymru. Mae'n ymwneud â chynnau tanau bwriadol ar weirdir a thir mynydd. Mae cynnau tân yn fwriadol yn ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn drosedd, a phwysaf ar bawb sydd â gwybodaeth berthnasol am y bobl sy'n cynnau'r tanau hyn i gysylltu â Crimestoppers.

### Boundary Changes

**Q2 Michael German:** Will the Minister make a statement on boundary changes in Newport City Council? OAQ(3)1157(SJL)

**Carl Sargeant:** The Local Government Boundary Commission for Wales has a statutory duty to review the electoral arrangements of principal authorities. The consultation on the proposals for Newport, Neath Port Talbot and Denbighshire has now ended and the commission is expected to publish its final reports for these areas in the spring.

**Michael German:** As you know, your predecessor provided guidance to the Local Government Boundary Commission for Wales about the direction that it should take. Two of the specific guidance points have been ignored in Newport, one of which was the Minister's instructions relating to the ratio of councillors to electors. He recommended a ratio of one councillor to 1,750 electors, but there is an increase in the commission's proposals is one to 2,400. The other guidance point was to take account of topography and communities. Do you intend to reinforce the advice given by your predecessor to the Local Government

### Newid Ffiniau

**C2 Michael German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am newid ffiniau yng Nghyngor Dinas Casnewydd? OAQ(3)1157(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Lleol Cymru ddyletswydd statudol i adolygu trefniadau etholiadol y prif awdurdodau. Mae'r ymgynghori am y cynigion ar gyfer Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot a Sir Ddinbych wedi dod i ben bellach, a disgwylir i'r comisiwn gyhoeddi ei adroddiadau terfynol ar gyfer yr ardaloedd hyn yn y gwanwyn.

**Michael German:** Fel y gwyddoch, rhoddodd eich rhagflaenydd ganllawiau i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r cyfeiriad y dylai ei ddilyn. Mae dau o'r canllawiau penodol wedi'u hanwybyddu yng Nghasnewydd, ac un o'r rheini oedd cyfarwyddiadau'r Gweinidog ynglŷn â chymhareb nifer y cynghorwyr a nifer yr etholwyr. Ei argymhelliad ef oedd y dylid cael cymhareb un cynghorydd i 1,750 o etholwyr, ond mae cynigion y comisiwn wedi cynyddu hynny i un i 2,400. Y canllaw arall oedd y dylid ystyried topograffi cymunedau. A ydych yn bwriadu atgyfnerthu cyngor eich rhagflaenydd i Gomisiwn Ffiniau



Boundary Commission so that it takes account of the numbers that you have requested as guidance, and that it should also take account of the community boundaries, which are not clear in its proposals?

**Carl Sargeant:** There has been an awful lot of cross-party interest around the boundary commission's report. Until the commission's final report is received and its final proposals are known, it would not be appropriate for me to speculate on them. I am aware that the previous Minister, Brian Gibbons, wrote to the commission outlining some of the issues that you raised on how the guidelines were being interpreted. I will await its final proposals after consultation, and base my deliberations on them.

11.50 a.m.

**William Graham:** Minister, will you give an undertaking that when you receive the commission's proposals, you will give great acknowledgement and cognisance to the remarks made by the deputy director of the Welsh Local Government Association. He says that the proposals

'have given me significant cause for concern which I understand is shared in the local authorities concerned and the local government community more widely...I am surprised that the option of multi-member divisions, traditionally used for representation in densely populated urban areas, has been applied in an unwieldy and inappropriate fashion to large rural and semi-rural area.'

In particular, there is concern that the proposals could combine a number of existing wards, creating the artificial communities already referred to that are not recognised locally, a number of which are large rural wards or a merger of existing rural wards with urban wards.

**Carl Sargeant:** Thank you for your

Llywodraeth Leol er mwyn iddo ystyried y niferoedd yr ydych wedi gofyn amdanynt fel canllaw, ac y dylai hefyd ystyried ffiniau'r cymunedau, nad ydynt yn glir yn ei gynigion?

**Carl Sargeant:** Mae adroddiad y comisiwn ffiniau wedi denu llawer iawn o ddiddordeb trawsbleidiol. Nes daw adroddiad terfynol y comisiwn a'i gynigion terfynol yn hysbys, ni fyddai'n briodol imi ddamcaniaethu yn eu cylch. Gwn fod y Gweinidog blaenorol, Brian Gibbons, wedi ysgrifennu at y comisiwn yn sôn am rai o'r materion a godwyd gennych ynglŷn â'r ffordd yr oedd y canllawiau'n cael eu dehongli. Disgwyliaf weld ei gynigion terfynol ar ôl ymgynghori gan seilio fy ystyriaethau arnynt.

**William Graham:** Weinidog, a wnewch addo, ar ôl ichi gael cynigion y comisiwn, y byddwch yn cydnabod ac yn ystyried yn ddwys sylwadau dirprwy gyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? Mae'n dweud bod y cynigion

wedi peri pryder mawr imi a deallaf fod yr awdurdodau lleol dan sylw a'r gymuned llywodraeth leol yn fwy cyffredinol yn poeni yn yr un modd... Yr wyf yn synnu bod y dewis o greu wardiau a gynrychiolir gan nifer o aelodau, trefn a ddefnyddir yn draddodiadol ar gyfer cynrychiolaeth mewn ardaloedd trefol dwys eu poblogaeth, wedi ei ddefnyddio mewn ffordd drwsgl ac amhriodol ar gyfer ardal fawr wledig a lledwledig.

Yn benodol, mae pobl yn poeni y gallai'r cynigion gyfuno nifer o wardiau sydd eisoes yn bodoli, gan greu'r cymunedau artiffisial y cyfeiriwyd atynt eisoes nad yw pobl yn eu cydnabod yn lleol, a nifer o'r rheini'n wardiau gwledig mawr neu'n gyfuniad o wardiau gwledig sydd eisoes yn bod mewn wardiau trefol.

**Carl Sargeant:** Diolch am eich sylwadau,

comments, William. As I mentioned to Mike, the report has attracted a great deal of interest from all quarters. The commission is an independent body with certain statutory functions, which include reviewing the electoral arrangements of county and county borough councils in Wales on a cyclical basis. It would not be appropriate for me to comment further on the outcomes of these reports until I have seen them in full.

### **Close the Pay Gap Campaign**

**Q3 Christine Chapman:** Will the Minister provide an update on the Close the Pay Gap campaign? OAQ(3)1092(SJL)

**Carl Sargeant:** The commitments given by the Welsh Assembly Government in 2009 to support the activity of the Close the Pay Gap campaign have been fulfilled. The gender pay gap in Wales narrowed between 2008 and 2009 and is one of the lowest of the devolved Governments and English regions.

**Christine Chapman:** You will know that Monday marked International Women's Day, which was an opportunity, across the world, not only to celebrate the achievements of women, but also to recognise that, while there has been progress in women's equality, there is still much more to be done. While I welcome the Assembly Government's commitment to this campaign in Wales, the pay gap between full-time male and female workers continues to stand at around 14 per cent, while three quarters of part-time jobs are held by women, where the pay gap is as high as 38 per cent. Do you agree that that represents a huge loss of talent and is unacceptable, particularly at a time when we in Wales are trying to get the economy moving again?

**Carl Sargeant:** I have received many letters from you on closing the pay gap. I support your comments on addressing this at a quicker pace. On the back of that, I wrote to

William. Fel y crybwyllais wrth Mike, mae'r adroddiad wedi denu llawer iawn o ddiddordeb o bob tu. Corff annibynnol yw'r comisiwn a chanddo swyddogaethau statudol penodol, a'r rheini'n cynnwys adolygu trefniadau etholiadol cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru drwy ddilyn trefn gylchol. Ni fyddai'n briodol imi sôn ymhellach am ganlyniadau'r adroddiadau hyn nes imi eu gweld yn llawn.

### **Ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog**

**C3 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog? OAQ(3)1092(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae'r ymrwymïadau a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2009 i gefnogi gweithgarwch ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog wedi'u cyflawni. Caeodd y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yng Nghymru rhwng 2008 a 2009 ac mae'n un o'r isaf ymhlith y Llywodraethau datganoledig a rhanbarthau Lloegr.

**Christine Chapman:** Gwyddoch fod dydd Llun yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, ac yr oedd hwnnw'n gyfle ym mhob cwr o'r byd inni nid yn unig ddathlu llwyddiannau menywod ond i gydnabod hefyd, er bod pethau wedi gwella o ran cydraddoldeb i fenywod, fod llawer i'w wneud eto. Er fy mod yn croesawu ymrwymïad Llywodraeth y Cynulliad i'r ymgyrch hon yng Nghymru, mae'r bwlch cyflog rhwng merched sy'n weithwyr a dynion sy'n weithwyr amser tua 14 y cant o hyd, a menywod sy'n gwneud tri chwarter y swyddi rhan-amser, lle mae'r bwlch cyflog cyn uchod â 38 y cant. A gytunwch fod hyn yn golygu ein bod yn colli cronfa enfawr o dalent a'i fod yn annerbyniol, yn enwedig a ninnau yma yng Nghymru ar hyn o bryd yn ceisio sicrhau bod yr economi'n dechrau symud eto?

**Carl Sargeant:** Yr wyf wedi cael nifer o lythyrau gennych ynglŷn â chau'r bwlch cyflog. Yr wyf yn cefnogi'ch sylwadau ynglŷn â mynd i'r afael â hyn yn gyflymach.

all local authorities in Wales recently to establish where they are on the timeline to establish a single status and backpay settlements in order to pursue that. The Assembly Government has committed funding in the past to support local authorities in completing this process. It is certainly one of my priorities, and I will write to you regarding the detail when I have received it from the local authorities.

**Mohammad Asghar:** Nine years have passed since the launch of the Close the Pay Gap campaign and it is welcome news that, while the pay gap in Wales currently stands at around 9 per cent, better progress has been made here than anywhere else in the United Kingdom. However, since the scheme was implemented, that figure has been volatile and in 2007, for example, the pay gap in Wales rose to 12.7 per cent, up from 10.3 per cent. There is therefore no room for complacency. What reassurances can the Minister provide that the pay gap is being treated as a priority by the Assembly Government and how soon does the Minister expect the pay gap to be reduced further in Wales?

**Carl Sargeant:** First, I thank you for welcoming the fact that better progress has been made in Wales in this regard, which is something to do with the Labour Government and now the One Wales Government that have been operating in this country. Last year, the gender pay gap for full-time employees was around 12.7 per cent; that has narrowed to 8.8 per cent, according to the latest figures published by the Office for National Statistics in November 2009. The gender pay gap in Wales for part-time employees has narrowed also, and the figure now stands at around 6 per cent. As Chris has pointed out, there is still a long way to go and my commitment, along with the Wales Trades Unions Congress and the Equality and Human Rights Commission is to push this agenda forward. As I said, I have already written to local authorities to gain more information on their progress on this.

Oherwydd hynny, ysgrifennais at bob awdurdod lleol yng Nghymru'n ddiweddar i holi ymhle y maent arni o ran yr amserlen ar gyfer sefydlu un statws a setlo ôl-daliadau i fynd ar drywydd hynny. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo arian yn y gorffennol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gwblhau'r broses hon. Yn sicr, mae hon yn un o'm blaenoriaethau, ac ysgrifennaf atoch gyda'r manylion ar ôl imi eu cael gan yr awdurdodau lleol.

**Mohammad Asghar:** Mae naw mlynedd wedi mynd heibio ers lansio ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog, ac mae'n newyddion i'w groesawu ein bod wedi gwneud mwy o gynnydd yma nag yn unman arall yn y Deyrnas Unedig, er bod y bwlch cyflog yng Nghymru yn 9 y cant ar hyn o bryd. Serch hynny, ers cyflwyno'r cynllun mae'r ffigur hwnnw wedi codi a gostwng, ac yn 2007, er enghraifft, cododd y bwlch cyflog yng Nghymru o 10.3 y cant i 12.7 y cant. Felly, ni ddylem orffwys ar ein rhwyfau. Pa sicrwydd y gall y Gweinidog ei roi fod y bwlch cyflog yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth gan Lywodraeth y Cynulliad, a pha mor fuan y mae'r Gweinidog yn disgwyl gweld cau'r bwlch cyflog eto yng Nghymru?

**Carl Sargeant:** Yn gyntaf, diolch ichi am groesawu'r ffaith ein bod wedi gwneud mwy o gynnydd yn y cyswllt hwn yng Nghymru. Mae a wnelo hynny â'r ffordd y mae'r Llywodraeth Lafur a Llywodraeth Cymru'n Un yn awr wedi bod yn gweithredu yn y wlad hon. Y llynedd, y bwlch cyflog ar gyfer gweithwyr amser llawn oedd tua 12.7 y cant; mae hynny wedi lleihau i 8.8 y cant, yn ôl y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2009. Mae'r bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yng Nghymru ar gyfer gweithwyr rhan-amser hefyd wedi cau, a'r ffigur erbyn hyn yw tua 6 y cant. Fel y mae Chris wedi'i ddweud, mae cryn ffordd i fynd eto ac yr wyf fi, ynghyd â Chynghres Undebau llafur Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, wedi ymrwymo i roi hwb i'r agenda hon. Fel y dywedais, yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol i gael

rhagor o wybodaeth am eu cynnydd yn y maes hwn.

**Bethan Jenkins:** Can the Minister update us on pay disparities within local authorities? This week, within which we marked International Women's Day, it is worth noting that the overwhelming majority of senior executive posts in local authorities are still occupied by men, while the vast majority of the lowest-paid council jobs are carried out by women. I have seen this recently with regard to care-home workers in Neath Port Talbot. Will the Minister join me in calling local authorities to do more to promote gender balance and are there any possibilities of putting mechanism in place, led by the Welsh Government, to ensure that more women have an equal opportunity to access the highest-paid jobs in our local authorities?

**Bethan Jenkins:** A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am yr anghysondebau rhwng cyflogau o fewn awdurdodau lleol. Yr wythnos hon, pan dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Merched, mae'n werth nodi mai dynion o hyd sy'n gwneud y mwyafrif helaeth o'r swyddi gweithredol uwch mewn awdurdodau lleol, ac mai menywod sy'n gwneud y mwyafrif helaeth o'r swyddi isaf eu cyflog mewn cynghorau. Yr wyf wedi gweld hyn yn ddiweddar ymhlith gweithwyr cartrefi gofal yng Nghastell-nedd Port Talbot. A wnaiff y Gweinidog ymuno â mi i alw ar awdurdodau lleol i wneud rhagor i hyrwyddo cydbwysedd rhwng ddau ryw, ac a oes unrhyw bosibilrwydd o sefydlu mecanwaith, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod rhagor o fenywod yn cael yr un cyfle i gael y swyddi uchaf eu cyflog yn ein hawdurdodau lleol?

**Carl Sargeant:** The Close the Pay Gap campaign was a partnership campaign led by the Welsh Assembly Government, with the support of the then Equal Opportunities Commission, now the Equality and Human Rights Commission and the Wales TUC. Phase 1 started in 2001 and in November 2008, Brian Gibbons, the then Minister for Social Justice and Local Government, reported to the Committee on Equality of Opportunity that the programme of activity had been agreed to support the Close the Pay Gap campaign. As I mentioned earlier, I have already written to local authorities and I have a meeting with Unison in the next week or two to discuss further how we can push this agenda forward. I expect that I was an unusual speaker at the International Women's Day event in Cardiff, however, I think that I went down quite well, if I do say so myself. [Laughter.] The equality of pay is rightly one of my priorities and I will continue to push this agenda forward.

**Carl Sargeant:** Ymgyrch bartneriaeth oedd ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog, dan arweiniad Llywodraeth y Cynulliad gyda chefnogaeth y Comisiwn Cyfle Cyfartal fel yr oedd ar y pryd, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol erbyn hyn, a TUC Cymru. Dechreuodd Cyfnod 1 yn 2001, ac ym mis Tachwedd 2008 adroddodd Brian Gibbons, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd, wrth y Pwyllgor Cyfle Cyfartal fod cytundeb ar y rhaglen weithgarwch i gefnogi ymgyrch Cau'r Bwlch Cyflog. Fel y crybwyllais gynnau, yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at awdurdodau lleol, a byddaf yn cyfarfod ag Unsain yn ystod yr wythnos neu ddwy nesaf i drafod ymhellach sut y gallwn roi hwb i'r agenda hon. Mae'n siŵr nad oedd pobl yn disgwyl fy ngweld yn siarad yn nigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, credaf imi greu argraff ddigon da, er fy mod yn dweud hynny fy hun. [Chwerthin.] Mae cyflog cyfartal yn un o'm blaenoriaethau, a hynny'n gwbl briodol, a byddaf yn dal ati i yrru'r agenda hon ymlaen.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 4, OAQ(3)1115(SJL), yn ôl.

**The Presiding Officer:** Question 4, OAQ(3)1115(SJL), is withdrawn.

### **Rhyddhad Ardrethi**

**C5 Gareth Jones:** Yr wyf yn falch, Weinidog, eich bod wedi gwella ac yn gallu ailafael yn eich dyletswyddau. A wnewch chi ddatganiad am y meini prawf cymhwyso ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes? OAQ(3)1153(SJL)

**Carl Sargeant:** From 1 April 2010 unoccupied business properties with a rateable value of up to £18,000 qualify for full relief, and most properties with a rateable value of up to £7,800 qualify for small business rates relief. Higher thresholds apply to independent retailers, pubs, petrol stations, registered child carers, credit unions and post offices.

**Gareth Jones:** A ydych yn dawel eich meddwl nad yw'r amodau cymhwyso ar gyfer busnesau manwerthu, megis siop neu garej, er mwyn cael disgownt o dan y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach mor haearnaidd fel eu bod yn rhwystro busnesau haeddiannol a gonest rhag cymhwyso? A wnewch chi ddatganiad ar hyn?

**Carl Sargeant:** The majority of business premises in Wales fall within the threshold of 25 per cent or 50 per cent relief and the majority of businesses in Wales could qualify for small business rates relief or other relief such as unoccupied property or the charity basis. This has been quite a contentious issue in some areas of Wales, but the reality is that the Assembly Government does not have any further resources to enhance the relief scheme to include providers of services or to replicate the services in Scotland or England. I have received letters from you recently on some of the detail around this. I have given further consideration to this issue, but it is difficult to move any further on it.

### **Business Rate Relief**

**Q5 Gareth Jones:** I am pleased, Minister, to see that you have recovered and that you are able to recommence your duties. Will you make a statement on the qualifying criteria for business rate relief? OAQ(3)1153(SJL)

**Carl Sargeant:** O 1 Ebrill 2010 bydd eiddo busnes gwag sydd â gwerth ardrethol hyd at £18,000 yn gymwys ar gyfer rhyddhad llawn, a bydd y rhan fwyaf o eiddo sydd â gwerth ardrethol hyd at £7,800 yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes bach. Mae trothwyon uwch i fanwerthwyr annibynnol, tafarnau, gorsafoedd petrol, gofalwyr plant cofrestredig, undebau credyd a swyddfeydd post.

**Gareth Jones:** Are you satisfied that the qualifying criteria for retail businesses, such as a shop or garage, to secure a discount under the small business rates relief scheme are not so rigid as to prevent worthy and honest businesses from qualifying? Will you make a statement on this?

**Carl Sargeant:** Mae'r rhan fwyaf o adeiladau busnes yng Nghymru o fewn y trothwy ar gyfer rhyddhad 25 y cant neu 50 y cant, a gallai'r rhan fwyaf o fusnesau yng Nghymru fod yn gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi busnes bach neu ryddhad arall, fel rhyddhad eiddo gwag neu ar sail elusen. Bu hyn yn bwnc digon dadleuol mewn rhai rhannau o Gymru, ond y gwir yw nad oes gan Lywodraeth y Cynulliad ddim mwy o adnoddau i wella'r cynllun rhyddhad i gynnwys darparwyr gwasanaethau, neu i efelychu'r gwasanaethau yn yr Alban neu Loegr. Yr wyf wedi cael llythrau gennyh yn ddiweddar ynglŷn â rhai o'r manylion am hyn. Yr wyf wedi rhoi ystyriaeth bellach i'r mater hwn, ond mae'n anodd symud dim pellach arno.

**Nick Bourne:** It is good to see Carl Sargeant back in robust form and looking indestructible. My question relates to transitional relief, which, as you know, is in place in England. Many businesses in communities up and down Wales, such as those in Narberth, Llandeilo and Aberaeron in my area, have suffered massively from the revaluation—there is no question of that—and they are often tourism and catering outlets. What is the thinking behind the fact that there is to be no transitional relief for these businesses, many of which face, at the very best, a stark future or, in some cases, closure?

**Carl Sargeant:** Thank you, Nick, for your comments. We should act responsively in the Welsh Assembly Government and part of that is about taking evidence from the sector. We have had detailed discussions with representatives from the sector, including the Federation of Small Businesses, which represents many of the small businesses in Wales. A transitional relief scheme, which, as you say, is in force in England, was not requested on behalf of the membership as a whole. The reality is that a transitional relief scheme along the English lines would have to have been funded in-house. So, if I understand what you are saying, you are suggesting that the money for the 60 per cent of businesses that will receive a reduction in their rate bills on 1 April should instead be shared in a relief scheme. That is not the feedback that we got from the sector. I am not sure where you got your information from.

12.00 p.m.

**Kirsty Williams:** Minister, since taking on your new role, I suspect that the issue of business rates has commanded most of your attention in letters from across the Chamber. You will know that, although some people will benefit from the revaluation exercise, there are some very large increases for individual businesses across Wales. For some businesses, these additional costs could be the final straw as they make the final decision

**Nick Bourne:** Mae'n dda gweld Carl Sargeant yn ôl ar ei orau ac yn edrych yn anorchfygol. Mae a wnelo fy nghwestiwn â rhyddhad trosiannol, sydd, fel y gwyddoch, ar gael yn Lloegr. Mae nifer o fusnesau mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru, fel y rhai yn Arberth, Llandeilo ac Aberaeron yn fy ardal i, wedi dioddef yn aruthrol yn sgil yr ailbrisio—nid oes dim dwywaith am hynny—a busnesau twristiaeth ac arlwyyo ydynt yn aml. Beth yw'r meddwl y tu ôl i'r ffaith na chynigir rhyddhad trosiannol i'r busnesau hyn, a nifer ohonynt, ar y gorau, yn wynebu dyfodol llwm, neu'n wynebu cau mewn rhai achosion?

**Carl Sargeant:** Diolch, Nick, am eich sylwadau. Dylem weithredu'n ymatebol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae rhan o hynny'n golygu derbyn tystiolaeth gan y sector. Yr ydym wedi cael trafodaethau manwl gyda chynrychiolwyr o'r sector, gan gynnwys Ffederasiwn y Busnesau Bach, sy'n cynrychioli nifer o'r busnesau bach yng Nghymru. Ni ofynnwyd am gynllun rhyddhad trosiannol sydd, fel y dywedwch, mewn grym yn Lloegr, ar ran yr aelodaeth yn ei chyfanrwydd. Y realiti yw y buasai'n rhaid talu'n fewnol am gynllun rhyddhad trosiannol ar batrwm yr hyn sydd yn Lloegr. Felly, os wyf yn deall yr hyn yr ydych yn ei ddweud, yr ydych yn awgrymu y dylai'r arian ar gyfer y 60 y cant o fusnesau a gaiff leihad yn eu biliau trethi ar 1 Ebrill gael ei rannu mewn cynllun rhyddhad yn lle hynny. Nid dyna'r ymateb a gawsom ni oddi wrth y sector. Nid wyf yn siŵr o ble y cawsoch eich gwybodaeth.

**Kirsty Williams:** Weinidog, ers ymgymryd â'ch rôl newydd, amheuaif fod cwestiwn ardrethi busnes wedi mynnu'r rhan fwyaf o'ch sylw mewn llythyrau o ochr arall y Siambr. Gwyddoch, er y bydd rhai pobl yn elwa o'r ymarferiad ailbrisio, y bydd codiadau mawr iawn i fusnesau unigol ledled Cymru. I rai busnesau, gallai'r costau ychwanegol hyn fod y gwelltyn olaf wrth iddynt wneud y penderfyniad terfynol

on whether to remain open or to close. You say that, at the moment, given the constraints of your departmental budget, you have no additional resources to increase the types of relief that might be available to different businesses or to increase the rateable value at which people qualify. What representations have you made to your colleague the Minister with responsibility for the budget with regard to whether you may be in a stronger position next year to increase the assistance available?

**Carl Sargeant:** Thank you for your question, Kirsty. You are right; within my first week in post, the rateable value relief scheme was on my desk. We therefore had to bring together the information required to decide exactly where to apply the scheme. We looked at various options for building a scheme in Wales that was appropriate to the various sectors. This was by far the most effective and, as I said, more than 60 per cent of business rate payers will benefit from the revaluation. As you are aware, I received many letters from Members. Therefore, I felt that it was appropriate to write to all Assembly Members, which I did on 26 January, to outline my proposals. It was very important that we outlined the statistics contained in the letter. Some 85 per cent of businesses in the self-catering sector—and I believe that these are some of the businesses you were referring to with regard to the large increases—could qualify for 50 per cent relief. Only 3.4 per cent of businesses that do not qualify for relief pay more than £199 per month, which represents only 131 businesses out of 3,870. So, a small minority of businesses will not benefit, while many will gain from the relief scheme that we have introduced in Wales.

**Brian Gibbons:** Carl, do you not agree that almost two thirds—well over half—of businesses in Wales will benefit from the rates revaluation? It is something that we should be celebrating. I heard Nick Bourne's point about the transitional relief scheme and Kirsty's point about changes to the rate valuation driving businesses to the wall.

ynghylch dal ar agor ynteu gau. Dywedwch nad oes gennych, ar hyn o bryd, oherwydd cyfyngiadau eich cyllideb adrannol, ddim adnoddau ychwanegol i gynyddu'r mathau o ryddhad y gellid eu cynnig i wahanol fusnesau, neu i gynyddu'r gwerth ardrethol lle bydd pobl yn gymwys. Pa sylwadau yr ydych wedi'u gwneud i'ch cyd-Weinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb am y cwestiwn a allech fod mewn sefyllfa gryfach y flwyddyn nesaf i gynyddu'r cymorth sydd ar gael?

**Carl Sargeant:** Diolch am eich cwestiwn, Kirsty. Yr ydych yn iawn; cyn pen wythnos ar ôl imi ymgymryd â'r swydd, yr oedd y cynllun rhyddhad gwerth ardrethol ar fy nesg. Felly, bu'n rhaid inni gasglu ynghyd y wybodaeth angenrheidiol i benderfynu ble'n union i weithredu'r cynllun. Edrychwyd ar y gwahanol ddewisiadau ar gyfer adeiladu cynllun yng Nghymru a fyddai'n briodol i'r gwahanol sectorau. Hwn oedd y mwyaf effeithiol o bell ffordd, ac fel y dywedais bydd dros 60 y cant o bobl sy'n talu ardrethi busnes yn elwa o'r ailbrisió. Fel y gwyddoch, cefais nifer o lythyrau gan Aelodau. Felly, teimlwn y byddai'n briodol ysgrifennu at bob Aelod Cynulliad, a gwneuthum hynny ar 26 Ionawr, i amlinellu fy nghynigion. Yr oedd yn bwysig iawn inni amlinellu'r ystadegau a roddwyd yn y llythyr. Gallai rhyw 85 y cant o fusnesau yn y sector hunan-arlwy—a chredaf fod y rhain ymhlith y busnesau yr oeddech yn cyfeirio atynt o ran y codiadau mawr—fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi o 50 y cant. Dim ond 3.4 y cant o fusnesau sy'n anghymwys i gael rhyddhad sy'n talu dros £199 y mis, sef 131 yn unig o fusnesau allan o 3,870. Felly, bydd lleiafrif bychan o fusnesau ar eu colled, tra bydd llawer ar eu hennill o'r cynllun rhyddhad yr ydym wedi'i gyflwyno yng Nghymru.

**Brian Gibbons:** Carl, oni chytunwch y bydd bron i ddwy ran o dair—ymhell dros hanner—y busnesau yng Nghymru yn elwa o'r ailbrisiad ardrethi? Dyna rywbeth y dylem fod yn ei ddathlu. Clywais bwynt Nick Bourne fod y cynllun rhyddhad trosiannol a phwynt Kirsty am newidiadau yn y gwerth ardrethol yn gyrru busnesau i'r wal. Fodd

However, the fact is that the beneficiaries of the revaluation are usually those companies in the most difficult financial circumstances. If we were to take Nick Bourne's line of attack, we would be driving more businesses to the wall, rather than protecting those businesses whose valuations have gone down because of the difficult business cycle.

**Carl Sargeant:** I agree absolutely. As I said, with respect to Nick, I have not seen evidence of support for a transitional relief scheme, other than in very small numbers. One of the important points, Brian, is that, as you will be aware, in the case of extreme hardship, local authorities can give hardship relief to businesses. Ironically, when that is awarded, the Assembly Government funds 75 per cent of it in any case. Therefore, there are other options that local authorities can consider to support businesses that are really struggling in their sectors.

#### Fire and Rescue Services

**Q6 Angela Burns:** Will the Minister make a statement on the importance of fire and rescue services in Wales? OAQ(3)1126(SJL)

**Carl Sargeant:** The fire and rescue national framework details our expectations of fire and rescue authorities. As well as being a vital emergency service, they have an important role in prevention, education and community engagement. Recognising this, we have provided dedicated funding of £27 million this year to take forward specific initiatives.

**Angela Burns:** My question arises from attending a fire late one night in Whitland, when voluntary crews from six different stations turned up, including Crymych and Whitland itself. These stations are manned by retained firefighters. Afterwards, I visited some of the fire stations and I learnt that most of these people must have other jobs to sustain themselves. They work for a range of employers, on a local to national basis. When

bynnag, y ffaith yw mai'r rhai a fydd yn elwa o'r ailbrisio fel rheol yw'r cwmnïau sydd yn yr amgylchiadau ariannol anoddaf. Pe dilynem drywydd Nick Bourne, byddem yn gyrru mwy o fusnesau i'r wal, yn hytrach na gwarchod y busnesau hynny y mae eu gwerth wedi mynd i lawr oherwydd y cylch busnes anodd.

**Carl Sargeant:** Cytunaf yn llwyr. Fel y dywedais, gyda phob parch i Nick, nid wyf wedi gweld tystiolaeth am gefnogaeth i gynllun rhyddhad trosiannol, heblaw gan niferoedd bach iawn. Un o'r pwyntiau pwysig, Brian, yw y gall awdurdodau lleol, fel y gwyddoch, mewn achosion o galedi eithriadol roi rhyddhad caledi i fusnesau. Yn eironig, pan roddir hwnnw, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn talu 75 y cant ohono beth bynnag. Felly, y mae dewisiadau eraill y gall awdurdodau lleol eu hystyried i gefnogi busnesau sydd mewn anhawster go iawn yn eu sectorau.

#### Gwasanaethau Tân ac Achub

**C6 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru? OAQ(3)1126(SJL)

**Carl Sargeant:** Mae'r fframwaith tân ac achub cenedlaethol yn rhoi manylion ein disgwyliadau ar awdurdodau tân ac achub. Yn ogystal â bod yn wasanaeth argyfwng hollbwysig, mae iddynt rôl bwysig o ran atal, addysgu ac ymgysylltu â'r gymuned. I gydnabod hyn, yr ydym wedi darparu cyllid penodol o £27 miliwn eleni i fwrw ymlaen â mentrau penodol.

**Angela Burns:** Mae fy nghwestiwn yn codi yn sgil mynd i dân yn hwyr un nos yn Hendy-gwyn ar Daf, pan gyrhaeddodd criwiau gwirfoddol o chwe gorsaf wahanol, gan gynnwys criwiau Crymych a Hendy-gwyn ei hun. Diffoddwyr wrth gefn sydd yn staffio'r gorsafoedd hyn. Wedyn, ymwelais â rhai o'r gorsafoedd tân, a dysgais bod y rhan fwyaf o'r bobl hyn yn gorfod cael swyddi eraill i'w cynnal eu hunain. Gweithiant i



a shout happens, their pagers alert them and, if they are on call, they are the ones to respond. Through visiting a number of fire stations, I have found that local businesses are prepared to allow their person to go. You might have a company with only three or four members of staff that suddenly loses one in order to attend a shout. Yet, the national companies are far more difficult about this. They will not let their staff go unless they can pre-book their absence, but, of course, you cannot pre-book a fire. Could you look at this issue, Minister, to see whether there is anything that you can do to encourage some of these companies? I have an awful lot of evidence now. I have written to companies, seeking information on their policies. All of them, including the Government and the Commission, are fairly opaque on the issue of what we do to enable people to go out to serve their local communities and act as retained firefighters. We absolutely need these people because there are no alternatives.

**Carl Sargeant:** To be clear, the Government and I recognise and value the important role that the retained duty system firefighters—and the wider emergency response provision in Wales—play within communities, particularly in rural Wales. They do a specific and very good job in the roles that they carry out. It may be helpful for you to hear that I shall be renewing my commitment and our support to promoting retained duty fire systems to the public and private sectors through an open letter to employers, highlighting the benefits that the retained duty system fire service staff can bring to their organisations. We have previously promoted retained firefighters through a wider Welsh Assembly Government-funded recruitment campaign, which included an information pack and DVD. This is still used by fire and rescue authorities for members and for businesses at large. My commitment to support retained firefighters could not be greater, and I will be writing to businesses to promote the work and the support that they

amrywiaeth o gyflogwyr, yn lleol neu'n genedlaethol. Pan ddaw galwad, cânt rybudd ar eu teclynnau galw, ac os byddant ar alwad hwy yw'r rhai sy'n ymateb. Wrth ymweld â nifer o orsafoedd tân, canfûm fod busnesau lleol yn barod i adael i'w gweithiwr fynd. Gallech gael cwmni o ddim, mwy na thri neu bedwar aelod staff sy'n sydyn yn colli un i ateb galwad. Eto, mae'r cwmnïau cenedlaethol yn llawer mwy cyndyn ynglŷn â hyn. Nid ydynt hwy'n gadael i'w staff fynd oni allant drefnu eu habsenoldeb ymlaen llaw. Ond, wrth gwrs, ni allwch drefnu diffodd tân ymlaen llaw. A allech edrych ar y mater hwn, Weinidog, i weld a oes unrhyw beth y gallwch ei wneud i annog rhai o'r cwmnïau hyn? Mae gennyf lawer iawn o dystiolaeth erbyn hyn. Yr wyf wedi ysgrifennu at gwmnïau, gan ofyn am wybodaeth am eu polisiau. Maent i gyd, gan gynnwys y Llywodraeth a'r Comisiwn, yn ddigon niwlog ar y cwestiwn beth a wnawn i alluogi pobl i fynd allan i wasanaethu eu cymunedau lleol a gweithio fel diffoddwyr tân wrth gefn. Mae arnom wir angen y bobl hyn oherwydd nid oes dewisiadau eraill.

**Carl Sargeant:** I fod yn glir, mae'r Llywodraeth a minnau'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl bwysig y diffoddwyr tân sydd ar ddyletswydd yn ôl y galw—a'r ddarpariaeth ehangach i ymateb i argyfwng yng Nghymru—mewn cymunedau, yn enwedig yn y Gymru wledig. Maent yn gwneud gwaith penodol a da iawn yn eu rolau. Efallai y bydd o gymorth ichi glywed y byddaf yn ailddatgan fy ymrwymiad a'n cefnogaeth ni i hyrwyddo systemau diffodd tân ar ddyletswydd yn ôl y galw i'r sectorau cyhoeddus a phreifat drwy lythyr agored at gyflogwyr, gan bwysleisio'r manteision y gall staff diffodd tân yn y system dyletswydd yn y ôl galw eu rhoi i'w sefydliadau. Yr ydym cyn hyn wedi hyrwyddo diffoddwyr wrth gefn drwy ymgyrch recriwtio ehangach yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a gynhwysai becyn gwybodaeth a DVD. Defnyddir hwn o hyd gan awdurdodau tân ac achub i'w haelodau ac i fusnesau'n gyffredinol. Ni allwn fod yn fwy ymroddedig i gefnogi diffoddwyr wrth

can gain from having these highly skilled trained firefighters working within their companies.

### Welfare of Asylum Seekers

**Q7 Helen Mary Jones:** What discussions has the Minister had with the UK Government regarding the welfare of asylum seekers in Wales? OAQ(3)1148(SJL)

It is good to see you back, Minister.

**Carl Sargeant:** Thank you, Helen Mary. The Welsh Assembly Government has regular dialogue with the UK Government on a range of issues affecting asylum seekers and refugees, including their means of support. In addition, the Welsh Assembly Government works in partnership with the Home Office to take forward the successful inclusion of refugees and asylum seekers into Welsh society.

**Helen Mary Jones:** You will remember that, before the reorganisation at Whitehall and when all of these matters were dealt with by the Home Office, there was an agreement between us, as an Assembly, and Westminster Ministers that they would respond to inquiries from Assembly Members, and from Members of the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly, when those Members were making representations on individual issues and cases, just as you as Ministers in the Welsh Government will reply to Members of Parliament on devolved issues such as health and care. I have made representations on behalf of two constituents with regard to asylum issues recently and have been told by the Borders Agency that it will not respond to my correspondence. I am sure that this is not the intention of Ministers at Westminster. Will you make representations to your opposite numbers in Westminster to see whether the protocol that was established previously can be reinstated? I am sure that

gefn, a byddaf yn ysgrifennu at fusnesau i hyrwyddo'r gwaith a'r gefnogaeth y gallant elwa ohoni o gael y diffoddwyr hyfforddedig crefftus iawn hyn yn gweithio yn eu cwmnïau.

### Lles Ceiswyr Lloches

**C7 Helen Mary Jones:** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch lles ceiswyr lloches yng Nghymru? OAQ(3)1148(SJL)

Mae'n dda eich gweld yn ôl, Weinidog.

**Carl Sargeant:** Diolch, Helen Mary. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael deialog rheolaidd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar amrediad o faterion sy'n effeithio ar geiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gynnwys modd eu cynnal. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â'r Swyddfa Gartref i fwrw ymlaen yn llwyddiannus i gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches mewn cymdeithas yng Nghymru.

**Helen Mary Jones:** Fe gofiwch, cyn yr addrefnu yn Whitehall a phan ymdriniwyd â'r materion hyn i gyd gan y Swyddfa Gartref, fod cytundeb rhyngom ni, fel Cynulliad, a Gweinidogion San Steffan y byddent yn ymateb i ymholiadau gan Aelodau Cynulliad, a chan Aelodau Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, pan fyddai'r Aelodau hynny'n cyflwyno sylwadau ar faterion ac achosion unigol, yn union fel y byddwch chi fel Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru'n ymateb i Aelodau Seneddol ar faterion datganoledig fel iechyd a gofal. Yr wyf wedi gwneud sylwadau ar ran dau etholwr am faterion lloches yn ddiweddar, ac mae'r Asiantaeth Ffiniau wedi dweud wrthyf na fydd ymateb i'm gohebiaeth. Yr wyf yn siŵr nad dyna fwriad Gweinidogion yn San Steffan. A wnewch chi gyflwyno sylwadau i'ch Gweinidogion cyfatebol yn San Steffan i weld a ellir ailsefydlu'r protocol a arferai fodoli? Yr wyf yn siŵr y cytunwch y dylai unigolion fod yn rhydd i fynd â'u hachos at ba gynrychiolydd

you will agree that individuals should be free to make representations to whichever local representative they feel most comfortable with. Just as we would certainly not say that our MP counterparts should not take an interest in health and education, so it is proper for us to take an interest in immigration and asylum.

12.10 p.m.

**Carl Sargeant:** To give a simple answer to that, I probably agree with both the comments that you made. I will be meeting John Vine, the chief inspector of the UK Border Agency, in late April. I will also make some representations to my colleagues in Westminster and I will, of course, write to you when I receive a response.

